| 45 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2017 – Chwefror 2018

Diweddarwyd: 5 Mehefin 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 46 | **Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn y Sector Annibynnol 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 47 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 MEHEFIN 2017** |
| **PWNC:** | **MONITRO’R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 4 2016/17** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>Bethanowen2@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Mawrth 2016, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2016/17 gyda gwariant net o £124.037m i’w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol.

**2.** Roedd y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion o £3.46m. Mae’r rhain wedi cael eu hymgorffori yn y cyllidebau gwasanaeth unigol ac mae cyflawni/diffyg cyflawni’r arbedion hyn wedi ei adlewyrchu yn y gor / tanwariannau net a ddangosir.

**3.** Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r canlyniadau dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2016 hyd at 31 March 2017.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2016/17 yw tanwariant o £633k. Mae hyn yn well na’r gorwariant a ragwelwyd yn chwarter 3. Mae’r esboniadau am yr amrywiadau sylweddol yn y cyllidebau a reolir gan wasanaethau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**5.** Mae nifer o eitemau’n cael eu heithrio o gyllidebau’r gwasanaeth am fod gwariant yn erbyn y penawdau hyn y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau. Ar ôl cymryd yr eitemau hyn i ystyriaeth, mae’r tanwariant cyffredinol i’r Cyngor yn gostwng i £311k a hwn yw’r swm sydd ar ôl i’w drosglwyddo i Falansau Cyffredinol y Cyngor.

**6.** Mae’r tanwariant yn cynnwys tan neu oriwariannau adrannol, cyllidebau wrth gefn sydd heb eu defnyddio ac unrhyw eitemau arall unwaith ac am byth a nodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn dilyn yr adroddiad ar chwarter 3, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ar y gyllideb graeanu dros y gaeaf, i gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi. Roedd hyn er mwyn helpu i gyllido costau ychwanegol yn y dyfodol yn codi oherwydd tywydd garw dros y gaeaf. Trosglwyddwyd swm o £33,477.

**7.** Argymhellir y dylid nodi’r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol 2016/17;
**(ii)** Bod y canlyniad yr adroddiad arno yn y ddogfen hon yn parhau i fod yn ganlyniad amodol hyd nes y bydd yr archwiliad statudol wedi ei gwblhau.

| | |
|---|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu fynd am yr opsiwn hwn?** | |
| Amherthnasol | |
| **C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| Mae'r mater wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| Ydi | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| Ydi | |

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr/Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol)** | |
| 2 | **Cyllid/Swyddog A151 (gorfodol)** | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol/Swyddog Monitro (gorfodol)** | Ymgynghorir fel rhan o'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol/arall/eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Monitro'r Gyllideb Refeniw, canlyniadau amodol.
Atodiad B – Canlyniadau Amodol (yn cynnwys Atodlen A – tabl o'r canlyniadau refeniw amodol 2016/17).
Atodiad C – Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer Cronfeydd wrth gefn 2016/17.
Atodiad CH – Crynodeb o'r perfformiad a ragwelir o ran cyflawni arbedion 2016/17.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch gydag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cyllideb Refeniw 2016/17 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor yma ar 1 Mawrth 2016 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2016).

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CANLYNIAD AMODOL 2016/17

## 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol

**1.1** Balans y gronfa gyffredinol ar ddecrhau'r flwyddyn oedd £7.886m. Fodd bynnag, yn erbyn hyn mae angen caniatáu ar gyfer ymrwymiad posibl oddeutu £2.8m i setlo hawliadau tâl cyfartal sy'n parhau i fod angen sylw, sy'n golygu y bydd lefel yr arian wrth gefn heb ei ymrwymo yn gostwng i £5.086m, sydd £86k yn fwy na'r isafswm o £6m a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer balans arian wrth gefn cyffredinol yn 2016/17. Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor drin y gwariant fel gwariant cyfalaf a fyddai'n trosglwyddo'r gost i'r gyllideb refeniw dros nifer o flynyddoedd. Os bydd y cais yn llwyddiannus, yna bydd y swm o £2.8m yn arian nad yw wedi ei ymrwymo ac yn cael ei roi'n ôl yn y gronfa wrth gefn gyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor.

## 2. Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 – Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion perfformiad ariannol pob gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad B.

Mae gorwariant net o £538k (0.49%) ar gyllidebau a reolir gan y Gwasanaethau'n well na'r canlyniad rhagdybiedig yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 a oedd yn rhagweld gorwariant o £756k ar Wasanaethau. Fodd bynnag, bydd tanwariant o £1.541m (12.01%) ar Gyllid Corfforaethol yn cyllido'r gorwariant ar wasanaethau. Yn ogystal, bu diffyg o £370k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn rhoi canlyniad refeniw o danwariant o £633k (0.51%) ar gyfer 2016/17, heb gynnwys addasiadau cyfrifo. Yn dilyn addasiadau cyfrifo o £321k, cyfanswm y tanwariant a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol ar gyfer 2016/17 yw £311k.

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r amrywiadau sylweddol (£100k neu fwy)

| **Crynodeb o amrywiadau amodol ar 31 Mawrth 2017yng nghyllideau gwasanaeth** | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu Gydol Oes | 861 |
| Diwylliant | (141) |
| Gwasanaethau Oedolion | (510) |
| Gofal Cymdeithasol i Blant | 1,019 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (288) |
| Gwasanaethau Eiddo | (233) |
| Priffyrdd | (102) |
| Economaidd | (104) |
| TGCh | (109) |
| Trawsnewid Corfforaethol | (147) |
| Corfforaethol a Democrataidd | 255 |
| Cyllid Corfforaethol | (1,541) |
| Casglu'r Dreth Gyngor | 370 |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k | 37 |
| Gorwariant / (tan)wariant Net | (633) |

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £861k (23.96%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y sefyllfa hon yn waeth na'r un a adroddwyd arni yn chwarter 3, sef £775k (21.14%).

**3.1.1.2** Mae'r cynnydd yn nifer y lleoliadau all-sirol arbenigol ers cychwyn y flwyddyn academaidd newydd wedi arwain at bwysau ariannol sylweddol ar y Gwasanaeth ac mae'r gorwariant am y flwyddyn ariannol ar y cyllidebau hyn yn £396k. Cafwyd gorwariant o £331k ar gludiant ysgolion a gorwariant o £75k ar brydau ysgol (gan gynnwys brecwast). Roedd tanwariant o £138k yn yr Adain Ieuenctid a hynny o ganlyniad i'r ffaith bod modd hawlio costau staffio a gweithgareddau o wahanol grantiau. Yn ogystal mae yna nifer o fân or/tanwariannau eraill. Drwy'r arian buddsoddi i arbed a dderbyniwyd, mae'r adran yn gweithio ar fuddsoddi yn y System 'One Management' a fydd o gymorth i ostwng costau cludiant ysgol (tacsis) o 2017/18. Llwyddwyd i gyflawni'r holl arbedion effeithlonrwydd yn 2016/17.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd y canlyniad yn dangos bod tanwariant o £141k (10.52%) yn y gwasanaeth hwn. Y rhagdybiaeth yn chwarter 3 oedd y byddai tanwariant o £75k (5.28%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £69k yn y tanwariant a ragwelwyd. Gellir priodoli'r prif wahaniaeth rhwng chwarter 3 a'r canlyniad i'r ffaith nad aeth gwariant disgwyliedig yn y swyddogaeth Llyfgelloedd yn ei flaen. Roedd tanwariant o £4k yn y gyllideb Amgueddfeydd ac Orielau a thanwariant o £93k yn y Gwasanaethau Llyfrgell. Roedd tanwariant o £28k ar Ynys Lawd, £10k ohono oherwydd gwarged yn yr incwm wedi i'r ffioedd godi. Llwyddwyd i gyflawni'r holl arbedion effeithlonrwydd yn 2016/17.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd tanwariant o £510k (2.32%) yn y gwasanaeth hwn a oedd yn well na'r gorwariant o £44k a ragwelwyd yn chwarter 3. Gellir priodoli'r gwahaniaeth sylweddol hwn yn y canlyniad a ragdybiwyd yn chwarter 3 o ganlyniad i newidiadau yn y lleoliadau preswl a nyrsio i gleientiaid o gymharu â'r hyn a ragwelwyd ar ddiwedd y chwarter diwethaf a'r cynnydd mewn incwm gan gleientiaid.

**3.2.2** Mae'r elfennau o fewn yr amrywiad i'r alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: tanwariant o £1k;
- Anableddau Corfforol (AC): gorwariant o £198k;
- Anableddau Dysgu (AD): gorwariant o £430k;
- Iechyd Meddwl (IM): gorwariant o £71k;
- Uned Ddarparu: tanwariant rhagdybiedig o £1,110k;
- Rheoli a Chefnogaeth: tanwariant o £95k.

**3.2.3** Mae'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw am y gwasanaeth a gall cynnydd bychan mewn lleoliadau arwain at gynnydd sylweddol yn y costau gan ddibynnu ar gymhlethdod y pecynnau gofal. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yn y gwasanaeth Anableddau Dysgu lle mae gorwariant o £176k yn gofal dydd a Gofal Cartref lle mae gorwariant o £196k. Mae'r gorwariant hwn yn adlewyrchu nod yr adran ar gyfer cleientiaid AD, sef eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned yn hytrach na mewn lleoliadau sefydliadol. Mae'r pwysau cyllidebol a nodwyd mewn perthynas â'r gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi lleihau ers chwarter 3, fodd bynnag, mae'r swyddi gweigion a oedd o gymorth i ostwng y gorwariant cyffredinol ar gyfer 2016/17 bellach wedi cael eu llenwi. Mae dau o leoliadau preswyl newydd a chynnydd mewn ffioedd wedi codi'r gorwariant a ragwelwyd yn Chwarter 3 i £198k yn y gwasanaethau Anableddau Corfforol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn yr incwm yn yr uned ddarparu wedi arwain at danwariant o £1,110k ar ddiwedd y flwyddyn ac mae tanwariant o £95k mewn costau rheoli a chymorth yn gwneud iawn am lawer o'r pwysau cyllidebol hyn.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd y canlyniad yn dangos gorwariant o £1,019k (9.05%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n sylweddol uwch na'r canlyniad a ragwelwyd yn chwarter 3, sef £718k (9.59%). Y gorwariant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) oedd £1,019k. Mae yna nifer o fân or/tanwariannau eraill hefyd.

**3.3.2** Yn naturiol, mae costau PDG yn dibynnu ar y galw am y gwasanaeth a gallant amrywio rhwng £3 – 10k yr wythnos mewn darpariaeth arbenigol. Mae'r Awdurdod Lleol yn gorfod cwrdd â chostau ymyriadau yn dilyn cyfarwyddyd gan y llys, e.e. asesiadau llety preswyl/llety â chymorth i rieni a phlant; cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn anodd eu rhagweld ac sy'n dibynnu ar y galw. Yn unol â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, rhaid i'r asesiadau hyn gael eu gwneud cyn yr achos llys hefyd – sy'n rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo rhyddhau cyllid ychwanegol i'r tîm Trothwy Gofal, gyda'r nod o fabwysiadu ymagwedd ataliol tuag at sicrhau llesiant Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn a gostwng eu nifer. Neilltuwyd £100k fel cronfa wrth gefn ar gyfer 2016/17 a bydd £241k yn cael ei ychwanegu i gyllideb y gwasanaeth am 2017/18 a 2018/19.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd y canlyniad yn dangos tanwariant o £46k (5.60%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cymharu gyda'r tanwariant rhagdybiedig o £50k (6.05%) yn chwarter 3. Roedd tanwariant o £23k ar y Strategaeth Dai a thanwariant o £46k ar gyllideb gweinyddiaeth tai, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion sydd bellach wedi cael eu llenwi. Roedd gorwariant o £23k ar ddigartrefedd ond mae hwn yn gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw amdano ac o'r herwydd, mae y tu allan i reolaeth y Gwasanaeth.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Arforol a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd tanwariant o £35k (1.84%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys tanwariant o £27k ar y gyllideb Economaidd, tanwariant o £77k ar y gwasanaeth Arforol a gorwariant o £69k ar y Gwasanaethau Hamdden.

**3.5.1.2** Roedd tanwariant o £27k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth a hynny oherwydd tanwariant ar staffio am resymau gwahanol ac eitemau bychan eraill o danwariant mewn perthynas â chostau cyffredinol rhedeg y Swyddfa.

**3.5.1.3** Roedd tanwariant o £77k yn yr adain Arforol ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd adolygu nifer y staff tymhorol a'u horiau gwaith, swyddi staff rheoli yn wag ac arbedion yn dilyn trosglwyddo Doc Pysgod Caergybi yn ôl i Stena Line.

**3.5.1.4** Roedd gorwariant o £69k yn y gwasanaeth Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r incwm gostyngol yn sgil cau Pwll Canolfan Hamdden Caergybi dros yr haf oherwydd gwaith cynnal a chadw a thrwsio hanfodol yn dilyn difrod storm yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf am gost oddeutu £50k. Mae cyflawni targedau incwm hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb, fodd bynnag, mae yna danwariannau dan benawdau gwasanaeth eraill yn y Swyddogaeth Hamdden a fydd yn gwneud i fyny rhywfaint am hyn ac yn gostwng cyfanswm y gorwariant.

### 3.5.2 Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £288k (11.19%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd bychan ar y tanwariant o £30k yr adroddwyd arno yn chwarter 3. Roedd tanwariant o £49k mewn perthynas â gweinyddiaeth cynllunio a hynny oherwydd swyddi gweigion ac incwm na chafodd ei gyflawni, mae tanwariant o £82k mewn perthynas â rheoli cynllunio a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd mewn ffioedd incwm. Mae ffioedd Rheoli Adeiladu hefyd wedi cynyddu a hynny wedi cyfrannau at y tanwariant o £86k ar gyfer yr adain.

**3.5.2.2** Mae tanwariant yn y rhan fwyaf o'r cyllidebau yn yr Adran Reolaeiddio ac eithrio Cyflawni Cynllunio Cymru, Cefn Gwlad a'r Arfordir, Trwyddedu a Marchnadoedd sydd wedi gorwario ychydig.

**3.5.2.3** Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo unrhyw incwm a oedd dros ben yn y ganolfan gost hon ar ddiwedd y flwyddyn i gronfa wrth gefn er mwyn ei ailfuddsoddi yn y dyfodol i gyflawni prosiectau'n gysylltiedig ag Ynys Ynni. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17 felly, cafodd £240k ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £102k (0.88%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn, sydd ychydig yn wahanol i'r sefyllfa a ragdybiwyd ar ddiwedd chwarter 3, sef tanwariant o £16k (0.25%).

**3.6.1.2** Cafwyd incwm ychwanegol o Feysydd Parcio yn 2016-17 drwy godi am barcio mewn 4 o feysydd parcio lle roedd modd parcio'n rhad ac am ddim yn flaenorol. O ganlyniad, cynhyrchwyd £555,498 mewn incwm o gymharu â tharged o £562,470 (sy'n cynnwys trwyddedau parcio blynyddol) sy'n golygu mai balans bychan o £7k sydd heb ei gyflawni. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr incwm ar gyfer Gwaith Stryd, gan arwain at danwariant o £90k a chynnydd yn yr incwm ar gyfer y Fflyd yn arwain at danwariant o £49k

**3.6.1.3** Mae yna nifer o fân or/tanwariannau eraill yn ogystal.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £8k (0.11%) yn y Gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn waeth na ragwelwyd yn chwarter 3, sef tanwariant o £60k (0.96%).

**3.6.2.2** Cafwyd gorwariant o £59k mewn perthynas â Chasglu Gwastraff sy'n cynnwys effaith hanner blwyddyn y trefniadau newydd ar gyfer casglu gwastraff bob 3 wythnos. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd tanwariant o £73k ar y gyllideb Gwaredu Gwastraff oherwydd bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Disgwylir i'r tanwariant gynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ond bydd angen ail-alinio'r gyllideb rhwng casglu gwastraff a gwaredu gwastraff er mwyn cymryd i ystyriaeth effaith y casgliadau bob 3 wythnos. Roedd y costau yng Ngorsaf Drosglwyddo Penhesgyn £18k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd tanwariant o £233k (20.20%) yn y Gwasanaethau Eiddo ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cymharu gyda'r canlyniadau a ragwelwyd yn chwarter 3, sef tanwariant o £175k (19.12%).

**3.6.3.2** Roedd gorwariant o £149k ar drwsio a chynnal a chadw, £10k ar gostau casglu gwastraff a £16k ar resymoli swyddfeydd ac fe wnaed iawn am hyn drwy: danwariant ar weithwyr (£64k), tanwariant mewn perthynas â Threthi Annomestig (£104k), gwasanaeth glanhau (£125k) a thanwariant o £118k ar renti a chyfleustodau.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd tanwariant o £269k (7.19%) yn y Gwasanaeth Trawsnewid ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn o ganlyniad i danwariant o £62k ar staffio yn y gwasanaeth Trawsnewid, tanwariant o £82k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd a thanwariant o £72k ar cyflenwadau TGCh. Mae yna nifer o fân or/tanwariannau eraill yn ogystal.

## 3.8 Adnoddau

**3.8.1** Roedd gorwariant o £52k (1.72%) yng nghyllideb y Swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd yn chwarter 3 y byddai'r gorwariant yn £92k (3.37%), felly mae hyn yn welliant.

**3.8.2** Mae'r pwysau allweddol ar y gyllideb yn ymwneud â chostau ymgynghorwyr yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau, sef £121k, costau bancio £10k a gorwariannau bychan eraill. Mae'r pwysau ar y cyllideb yn cael eu gwrthbwyso gan danwariannau o £78k yn yr Uned Gaffael, £51k mewn perthynas â chostau staffio a £23k yn yr Adain Archwilio Mewnol.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd gorwariant o £79k (5.43%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Y rhesymau mwyaf arwyddocaol am hyn yw tanwariant yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£45k) a gor-gyflawni incwm pridiannau tir (£33k), gorwariant o £64k ar gostau ymgynghorwyr cyfreithiol, £53k ar beiriannu llungopïo corfforaethol, £12k ar beiriannau ffrancio corfforaethol a £18k ar yr Etholiad Sirol. Mae nifer o or/tanwariannau bychan eraill yn ogystal.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Mae gorwariant o £255k (15.31%) yn y gyllideb o ganlyniad i addasiadau cyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd tanwariant o £96k (9.76%) yn y swyddogaeth ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd arbedion yn sgil ailstrwythuro'r strwythur Rheoli Strategol.

## 4. Cyllid Corfforaethol

**4.1** Roedd tanwariant o £1,541k ar Gyllid Corfforaethol.

**4.2** Mae'r gyllideb ar gyfer budd-daliadau a roddwyd yn cynnwys budd-daliadau tai, taliadau tai dewisol a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Roedd tanwariant o £729k yn y gyllideb hon. Mae elfen sylweddol o'r tanwariant hwn yn swm o £508k oherwydd bod nifer yr achosion yn llai nag a gyllidebwyd ar eu cyfer. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd arian annisgwyl unwaith ac am byth, sef swm o £391k wedi i ostyngiadau a gwmpasir gan grant 2014/15 a 2015/16 gael eu codio'n anghywir. Derbyniwyd yr arian yma o ganlyniad i gyflogi aelod o staff drwy asiantaeth i weithio drwy'r manylion. Fodd bynnag, mae'r swm hwn yn gostwng gan £148k oherwydd grantiau a roddwyd sydd ddim yn gymwys ar gyfer cymhorthdal a gorwariant o £25k yn y taliadau tai dewisol.

**4.3** Amcangyfrifir y bydd diffyg o £302k ar y targed arbedion Corfforaethol ar gyfer gweithio'n gallach. Mae yna arbedion y gellir eu priodoli'n glir i'r prosiect, er enghraifft cau swyddfeydd. Fodd bynnag, mae arbedion eraill o ran gweinyddu staff a chostau gweinyddiaeth gyffredinol yn cael eu gwireddu mewn cyllidebau gwasanaethau nad oes cyfrif ohonynt yn erbyn y targed hwn. Fodd bynnag, mae'r prosiect Gweithio'n Gallach yn ei gyfanrwydd wedi creu arbedion o £585,520 drwy gydol y prosiect cyfan.

**4.4** Mae diffyg sylweddol hefyd ar y llog a dderbynnir ar adneuon banc yr Awdurdod (£105k), sefyllfa a wnaed yn waeth gan y penderfyniad i dorri'r gyfradd banc swyddogol o 0.50% i 0.25%. Fodd bynnag, caiff y gorwariannau hyn eu gwrthbwyso oherwydd rhagamcenir y bydd tanwariant o £844k ar gyllido cyfalaf oherwydd costau benthyca is oherwydd fod yr Awdurdod yn defnyddio balansau'n hytrach na chymryd benthyciadau allanol ar y rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd benthyca'n fewnol fel hyn yn y dyfodol oherwydd y prosiectau cyfalaf sylweddol sydd ar y gweill, yn arbennig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**4.5** Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o'r costau cyllido cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn wyneb y penderfyniad i brynu allan o'r CRT a daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid codi ar y CRT gyfran uwch o'r costau yn codi o'r benthyciadau a gymerwyd cyn y penderfyniad i brynu allan. Mae hyn yn ei dro yn gostwng y costau i gyfrif refeniw'r Cyngor sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y tanwariant rhagamcanedig ar gostau cyllido cyfalaf. Rhagwelwyd drwy'r cynllun Busnes CRT fod y gost yn uwch ac o ganlyniad nid yw'n cael effaith ar ragolygon cyllidol y cynllun busnes CRT.

**4.6** Yn Atodiad C, ceir crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â chyllidebau wrth gefn ar gyfer 2016/17. Cymeradwywyd cyllideb o £2.039m ar gyfer cronfeydd wrth gefn fel rhan o gyllideb 2016/17, heb gynnwys yr arbedion Corfforaethol o £300k gyda hynny'n rhoi cyllideb net o £1.739m. Mae £1.648m wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau i gyllido prosiectau penodol neu faterion cyllidebol a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Roedd diffyg o £156k o ran y Dreth Gyngor y bu modd ei chasglu mewn gwirionedd oherwydd newidiadau ôl-ddyddiedig i'r system fandio a newidiadau i nifer y gostyngiadau a roddwyd i bobl sengl a'r eithriadau a ganiatawyd. Yn ogystal, roedd y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus a oedd i'w codi ar y cyfrif refeniw yn £214k. O'r herwydd, y rhagamcan cyfredol yw y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor yn tan-gyflawni ar y ffigwr targed gan £370k (0.29%) a hynny'n bennaf oherwydd yr angen i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer dyledion drwg. Mae'r sefyllfa hon yn waeth na'r diffyg o £264k a ragdybiwyd yn ystod chwarter 3.

## 6. Arbedion Cyllidebol ar gyfer 2016/17

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £3.06m eu tynnu o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2016/17 gyda £400k o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol yn cael eu cadw fel cronfa wrth gefn. Yn Atodiad D, ceir crynodeb o berfformiad yn erbyn yr arbedion cyllidebol hyn am y flwyddyn. Llwyddwyd i gyflawni £2.289m (74.80%) o'r arbedion yn ystod y flwyddyn.

**6.2** Llwyddwyd i gyflawni'n rhannol £355k (11.60%) o arbedion ond ni lwyddwyd i gyflawni £416k (13.59%) o'r arbedion o gwbl. Y prif resymau dros fethu cyflawni oedd gorwariant ar waith cynnal a chadw hanfodol ar briffyrdd - £155k, Gwasanaethau Oedolion - £135k oherwydd prosesau adolygu, ymgynghori a phrosesau cyfreithiol. Fodd bynnag, disgwylir iddynt fedru cyflawni'r arbedion yn 2017/18. Nid oedd modd i'r Gwasanaethau Plant gyflawni gwerth £32k o arbedion oherwydd newid yn y gyfraith a oedd yn eu cyfyngu rhag gwneud yr arbediad.

## 7. Casgliad

**7.1** Roedd cyfanswm y tanwariant ar gyfer yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 yn £311k (0.47%). Gwelodd y Gwasanaethau orwariant o £538k yn y cyllidebau a reolir ganddynt, sy'n well na'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 3. Bu pwysau sylweddol ar gyllidebau'r swyddogaeth Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. Roedd hynny i'w briodoli i gost gwasanaethau statudol ar gyfer lleoliadau arbenigol nad oes gan y gwasanaethau hyn ond rheolaeth gyfyngedig drostynt. Cafodd y gorwariant ar wasanaethau ei gyllido gan danwariant o £1.541m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol sydd i'w briodoli'n bennaf i gyllid annisgwyl unwaith ac am byth ac arbedion a'r Gyllido Corfforaethol. Yn ychwanegol at hyn, amcangyfrifir bod diffyg o £370k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor a hynny'n bennaf oherwydd yr angen i wneud darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Daw Addasiadau Cyfrifo o  £321k â chyfanswm y gorwariant ar gyfer yr Awdurdod yn ôl i £311k.

**7.2** Dylid nodi mai adroddiad ar y canlyniadau amodol yw hwn, mae Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd erbyn y dyddiad cau statudol o 30 Mehefin 2017 a bydd wedyn yn cael Archwiliaid Allanol a bydd y Datganiad Cyfrifon terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn ym mis Medi 2017. Bydd unrhyw amrywiadau ar y canlyniadau hyn yn cael eu nodi yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi.

**Canlyniadau Cyngor Sir Ynys Môn 2016/17** **Atodiad B**

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Sefyllfa Amodol | Cyfanswm Amrywiad Amodol | Amrywiad Amodol na ellir ei Reoli (eithriadau) | Amrywiad y gellir ei Rheoli (heb eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Y gyllideb sydd wedi'i datganoli i ysgolion | 43,818 | 43,818 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 3,781 | 4,687 | 906 | 45 | 861 |
| Diwylliant | 1,420 | 1,281 | (139) | 2 | (141) |
| | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,641 | 22,115 | (526) | -16 | (510) |
| | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 7,785 | 8,865 | 1,080 | 61 | 1,019 |
| | | | | | |
| Tai | 854 | 816 | (38) | 8 | (46) |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | |
| Priffyrdd | 6,510 | 6,429 | (81) | 20 | (102) |
| Eiddo | 1,224 | 1,040 | (184) | 49 | (233) |
| Gwastraff | 6,128 | 6,129 | 1 | 8 | (8) |
| | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | |
| Economaidd | 991 | 878 | (113) | (9) | (104) |
| Hamdden | 961 | 1,036 | 75 | 6 | 69 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,583 | 2,302 | (281) | 7 | (288) |
| | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,163 | 1,149 | (14) | (1) | (13) |
| TGCh | 1,717 | 1,607 | (110) | (1) | (109) |
| Trawsnewid Corfforaethol | 869 | 721 | (148) | (1) | (147) |
| | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | |
| Adnoddau | 3,021 | 3,244 | 223 | 171 | 52 |
| | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,441 | 1,518 | 77 | (2) | 79 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Sefyllfa Amodol | Cyfanswm Amrywiad Amodol | Amrywiad Amodol na ellir ei Reoli (eithriadau) | Amrywiad y gellir ei Rheoli (heb eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,697 | 1,927 | 230 | (25) | 255 |
| | | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 993 | 888 | (105) | (9) | (96) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **109,597** | **110,450** | **853** | **313** | **538** |
| | | | | | |
| Ardollau | 3,194 | 3,195 | 1 | 0 | 1 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,429 | 7,560 | (869) | (144) | (725) |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Trethi | 60 | 57 | (3) | 0 | (3) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac eraill | 382 | 294 | (88) | 0 | (88) |
| Cyllido a'r defnydd o Gronfeydd wrth gefn | (3,538) | 3,601 | (63) | (63) | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,913 | 5,187 | (726) | | (726) |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **14,440** | **12,692** | **(1,748)** | **(207)** | **(1,541)** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb 2016/17** | **124,037** | **123,142** | **(895)** | **106** | **(1,003)** |
| | | | | | |
| Cyllid 2016/17 | | | | | |
| Trethi Annomestig | (21,309) | (21,309) | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (32,109) | (31,525) | 584 | 215 | 370 |
| Grant Cymorth Refeniw | (70,619) | (70,619) | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2016/17** | **(124,037)** | **(123,453)** | **584** | **215** | **370** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Canlyniadau gan gynnwys effaith cyllido** | **(0)** | **(311)** | **(311)** | **321** | **(633)** |

**Atodiad C**

**Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer Cronfeydd Wrth Gefn16/17 - Chwarter 4**

| | Cyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Cyllideb Ddiwygiedig £ | Gor/(tan)wariant Gwirioneddol ar 31/03/17 £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Gwelliant | 400,000 | (304,730) | 95,270 | 95,270 |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol | 317,927 | (136,210) | 181,717 | 181,717 |
| Cyflogau a Graddfeydd | 500,000 | (500,000) | - | - |
| Cost Newid | 136,000 | (136,000) | - | - |
| Gostyngiad Trethi Annomestig | 60,000 | (57,100) | 2,901 | 2,901 |
| Arian wrth gefn wedi ei glustnodi | 625,000 | (518,250) | 106,750 | (106,750) |
| Arbedion Corfforaethol | 300,000 | 4,260 | (295,750) | (295,750) |
| **Cyfanswm y cyllidebau wrth gefn** | 1,738,927 | (1,648,029.50) | 90,897.50 | 90,897.50 |

**Atodiad Ch**

## Crynodeb o'r Perfformiad a Ragwelir o ran Cyflawni Arbedion Cyllidebol 2016/17 - Chwarter 4

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2016/17 £000 | Wedi eu cyflawni 2016/17 £000 | Wedi eu cyflawni'n rhannol 2016/17 £000 | Heb eu cyflawni 2016/17 £000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 1,308 | 1,308 | - | - | Llwyddwyd i wneud yr holl arbedion yn 2016/17 a disgwylir i gynnal hynny yn 2017/18 ac ymlaen. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 258 | 217 | 41 | - | Roedd y gwasanaeth wedi cyflawni ei dargedau arbedion unigol erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, er bod Incwm DU y canolfannau hamdden wedi cynyddu dros £55k o 2015/16, roedd tan-gyflawniad o £126k o ran incwm y canolfannau hamdden yn gyffredinol. Llwyddodd y swyddogaeth Rheoli Pla i gynyddu ei incwm a gostwng gwariant gan arwain at sefyllfa gost niwtral ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 730 | 230 | 314 | 186 | Llwyddodd Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i gyflawni yn uniongyrchol 9 o'r 14 o'u targedau arbedion cyfunol. Dyma fanylion y 5 sy'n weddill:-<br>a) Codwyd am barcio mewn meysydd parcio ychwanegol yn unol â'r gofyniad i wneud arbedion. O'r herwydd, mae cyfran yr incwm a gasglwyd o feysydd parcio wedi gwella'n sylweddol gydag ond balans bychan o £7k heb ei gyflawni.<br>b) Gwnaed llai o waith a oedd yn gysylltiedig â thraffig ond roedd gorwariant bychan o £8k ar ddiwedd y flwyddyn.<br>c) Roedd gorwariant o £155k ar waith cynnal a chadw ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol. Yn gyffredinol, mae tanwariant o £101k yn y Gwasanaeth Priffyrdd £101k sydd wedi lleihau effaith y diffyg uchod.<br>ch)Gwnaeth y gwasanaeth Rheoli Gwastraff arbedion drwy leihau costau ar un PC ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau arbedion ar y PC arall. O'r herwydd, roedd diffyg o £6k ar y targed arbedion.<br>d)Ni fu modd i'r gwasanaeth Rheoli Gwastraff wneud yr arbediad o £10k ar 'Hysbysebu ar Finiai' oherwydd diffyg diddordeb gan bartïon allanol. At ei gilydd, roedd tanwariant o £7k ar Reoli Gwastraff sydd wedi lleihau effaith y diffyg uchod. |
| Gwasanaethau Oedolion | 335 | 200 | | 135 | Ni fu modd cyflawni £135k yn ystod 2016/17 oherwydd prosesau adolygu, ymgynghori a chyfreithiol. Mae'n debyg y bydd modd eu cyflawni yn 2017/18. Fodd bynnag, yn 2016/17, bydd modd cyllido'r arbedion hyn o danwariannau mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2016/17 £000 | Wedi eu cyflawni 2016/17 £000 | Wedi eu cyflawni'n rhannol 2016/17 £000 | Heb eu cyflawni 2016/17 £000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant | 143 | 96 | | 47 | Ni fu modd cyflawni £32k o arbedion oherwydd newid yn y gyfraith, mae’n debygol y bydd modd cyflawni £15k o 2017/18. |
| Tai | 74 | 26 | | 48 | Mae gwerth £48k o arbedion na fu modd eu cyflawni wedi cael eu gohirio i 2017/18 (£37k oherwydd bod adroddiad Ymgynghorydd yn hwyr, £11k oherwydd bod eiddo wedi cael ei werthu’n hwyrach na’r disgwyliad). Fodd bynnag, yn 2016/17 cafodd yr arbedion hyn eu cyllido o danwariannau mewn rhannau eraill o’r gwasanaeth. |
| Trawsnewid | 4 | 4 | - | - | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2016/17. |
| Busnes y Cyngor | 56 | 56 | - | - | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2016/17. |
| Adnoddau | 72 | 72 | - | - | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2016/17. |
| Partneriaeth Môn a Gwynedd | 80 | 80 | - | - | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2016/17. |
| **Cyfanswm** | **3,060** | **2,289** | **355** | **416** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 MEHEFIN 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2016/17** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Ddim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2016/17 a fydd yn destun Archwiliad;
- Cymeradwyo dwyn £4.677m ymlaen i 2017/18 oherwydd tanwariant ar y rhaglen yn sgil llithriad. Dygir ymlaen y cyllid ar gyfer y swm hwn hefyd i 2017/18;

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17, a fydd yn destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | D/b – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Alldro Cyfalaf - 2016/17
Atodiad B - Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2017/18

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2016/17, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 1 2016/17 fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor hwn ar 19 Medi 2016;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2016/17, fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2016;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 3 2016/17, fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2017.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi cynnydd y Gwariant Cyfalaf a'r Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Bydd y ffigyrau yn yr adroddiad yn destun archwiliad.

**1.2** Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai, sef £26.933m ar gyfer 2016/17, ynghyd â Rhaglen Gyfalaf o £11.636m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Dygwyd £7.791m o ymrwymiadau cyfalaf ymlaen o 2015/16 ac mae cyllideb a ddygwyd ymlaen hefyd ar gyfer y rhaglen mân-ddaliadau sydd yn ei blwyddyn olaf. Ychwanegwyd cynlluniau cyfalaf eraill yn ystod y flwyddyn, fel y gwelir yn nhabl 1.4 isod, sef cyfanswm o £6.541m. Mae hynny'n dod â'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i £52.901m.

**1.3** Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17 a'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o 2015/16.

**Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2016/17 sydd wedi ei awdurdodi**

| | |
|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | £ |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 5,697,000.00 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,960,000.00 |
| Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll | 98,000.00 |
| Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd | 3,784,000.00 |
| Cerbydau | 150,000.00 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 816,000.00 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Parc y Bont | 150,000.00 |
| Gweithredu CCIS | 459,000.00 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw/Bro Rhosyr | 390,000.00 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 207,000.00 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd Biwmares | 600,000.00 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 247,000.00 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir (wynebu ffyrdd) | 2,200,000.00 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 2,725,000.00 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,257,000.00 |
| Canolfan Byron - Storfa Offer Cymunedol | 150,000.00 |
| Mynediad i'r Anabl | 100,000.00 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 1,157,000.00 |
| System Rheoli Cynnwys y Wefan Gorfforaethol | 75,000.00 |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol | 300,000.00 |
| Cyfleusterau Arlwyo mewn Ysgolion | 165,000.00 |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 37,000.00 |
| Pryniant Gorfodol / Cynllun Prynu drwy Gytundeb | 280,000.00 |
| Trwyddedu Meddalwedd | 72,000.00 |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 970,000.00 |
| Uwchraddio Rhwydwaith | 60,000.00 |
| Adnewydd Serfwyr - rhaglen dreigl | 150,000.00 |
| Cartref Gofal Preswyl Haulfre | 168,000.00 |
| System newydd ar gyfer casglu gwastraff | 509,000.00 |
| | **26,933,000.00** |
| **CRT** | |
| Trawsnewid UCA - 5 cerbyd | 80,000.00 |
| Adnewyddu a Gynllunwyd | 5,404,000.00 |
| Datblygu Tai Cyngor ychwanegol | 5,669,000.00 |
| Ailfodelu Llawr y Dref Llangefni | 450,000.00 |
| Trwawsnewid UCA - Offer | 33,000.00 |
| | **11,636,000.00** |

**Llithriant ymlaen o 2015/16**

| | |
|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | £ |
| Troi Tai'n Gartrefi (2) | 14,745.00 |
| Pryniant Gorfodol / Cynllun Prynu drwy | 178,550.00 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 84,564.00 |
| Cynllun Tai fforddiadwy | 288,703.00 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 1,600,000.00 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 3,245.00 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 2,809.00 |
| Arian Partneriaeth heb ei ddyrannu | 58,000.00 |
| Toiledau Cyhoeddus | 44,772.00 |
| Meysydd Parcio | 41,388.00 |
| Cerbydau | 224,401.00 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir (wynebu ffyrdd) | 29,120.00 |
| Goleuadau LED | 118,270.00 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,006,575.00 |
| Compound Cynhwysyddion Gwastraff | 118,520.00 |
| Doc Pysgod Caergybi | 96,340.00 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 85,683.00 |
| Mynwent Llanddona | 45,588.00 |
| Gweithio'n Gallach | 953,057.00 |
| TG - Citrix | 190,000.00 |
| System TG wrth gefn | 35,096.00 |
| Adnewyddu Haulfre | 38,758.00 |
| **CRT** | |
| Contract Gwres Canolog | 158,239.00 |
| Adnewyddu a Gynlluniwyd | 978,439.00 |
| Gwaith Amgylcheddol | 362,496.00 |
| Rheoli Risg Tân | 250,000.00 |
| Prynu Eiddo Presennol | 783,826.00 |
| | **7,791,184.00** |

**1.4** Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r Cynlluniau a ychwanegwyd at y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 yn ystod y flwyddyn a'r trefniadau cyllido.

**Cynlluniad ychwanegol a ychwanegwyd i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17**

| | |
|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod | 182,240.00 |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w Gwerthu | 167,500.00 |
| Troi Tai'n Gartrefi (2) | 152,755.00 |
| Grant LILILIA | 2,328,403.74 |
| Grant Galluogi | 86,789.00 |
| Grant Thomas Howells | 46,000.00 |
| Buddsoddi i Arbed - Cynllunio | 93,000.00 |
| Goleuadau LED Salix | 115,142.00 |
| Ail-doi Canolfannau Hamdden | 262,500.00 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden Caergybi | 340,000.00 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni - Cyllideb ychwanegol | 617,109.00 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd yn y Gymuned 2016/17 | 108,000.00 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 105,000.00 |
| Mân-ddaliadau | 800,000.00 |
| Buddsoddi i Arbed - EDMS | 57,860.00 |
| Buddsoddi i Arbed - System CRM | 135,000.00 |
| Gofal Ychwanegol Llangefni | 700,000.00 |
| Grant Cronfa Gofal Canolraddol | 243,640.00 |
| | **6,540,938.74** |

| | |
|---|---|
| **A Gyllidir gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 3,534,941.74 |
| Arian Wrth Gefn | 285,860.00 |
| Benthyca | 617,637.00 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,500,000.00 |
| Yswyriant | 602,500.00 |
| | **6,540,938.74** |

## 2. GWARIANT CYFALAF 2016/17

**2.1** Tabl yn crynhoi'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2017.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gwariant o'r Gyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 3,373 | 2,090 | (1,283) | 62 |
| CRT Tai | 14,236 | 8,607 | (5,630) | 60 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,935 | 10,633 | (2,302) | 82 |
| Economaidd ac Adfywio | 3,806 | 1,180 | (2,626) | 31 |
| Priffyrdd | 11,883 | 8,747 | (3,136) | 74 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 480 | (147) | 77 |
| Eiddo | 1,128 | 1,394 | 266 | 124 |
| Trawsnewid | 1,728 | 1,353 | (375) | 78 |
| Cynllunio | 1,327 | 916 | (411) | 69 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,857 | 1,240 | (618) | 67 |
| **Cyfanswm** | **52,901** | **36,640** | **(16,261)** | **69** |
| **Cyllidir gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 24,734 | 14,792 | (9,943) | 60 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6,575 | 5,237 | (1,338) | 80 |
| Benthyca gyda Chymorth | 2,189 | 6,223 | 4,034 | 284 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,730 | 4,590 | (2,140) | 68 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,667 | 5,058 | (5,609) | 47 |
| Arian Wrth Gefn | 690 | 8 | (682) | 1 |
| Benthyca | 713 | 148 | (565) | 21 |
| Yswiriant | 603 | 584 | (18) | 97 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **52,901** | **36,640** | **(16,261)** | **69** |

**2.2** 'Roedd y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £38.665m a gwariwyd £28.033m hyd at 31 Mawrth 2017, sef 73% o'r gyllideb. Y prif resymau dros y tanwariant oedd y tanwariant mawr yn erbyn y cyllidebau ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Cynlluniau Isadeiledd Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd. Roedd tanwariant o £2.127m yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac ni wariodd Cynlluniau Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni ddim o'r £2.414m a neilltuwyd iddynt. Eglurir y rheswm am hynny yn rhan 3.1.5 o'r adroddiad hwn. 'Roedd tanwariant o £2.735m yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi costio llai na'r disgwyl ac oherwydd na wnaed cymaint o waith ar-lein ag a ragwelwyd yn wreiddiol. Gwelir rhestr lawn o wariant y cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 60% o'i gyllideb. Y prif reswm pam nad yw'r holl gyllideb wedi ei gwario yw tanwariant yn y gyllideb ar gyfer Prynnu Eiddo Presennol, gan mai dim ond £1.626m o'r gyllideb o £6.453m sydd wedi ei wario (25%). Ar wahân i'r cynllun hwn, mae 90% o'r gyllideb CRT sy'n weddill wedi ei wario yn llawn.

**2.4** Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau (a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd i'r rhaglen yn benodol yn sgil gwerthu mân-ddaliadau a'r incwm rhent) wedi cael ei hymestyn am flwyddyn ychwanegol. Mae diffyg o £1.281m wedi'i ddwyn ymlaen o 2015/16 ac 'roedd y derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £2.854m a gwariwyd £1.226m hyd at 31 Mawrth 2017. O ganlyniad, mae gwarged o £0.307m erbyn hyn a bydd gwarged net o werthu mân-ddaliadau a'r rhaglen wella i'w ddefnyddio'n benodol ac yn unig ar gyfer gwneud gwelliannau i fân-ddaliadau yn y dyfodol.

**2.5** Fel y gwelir o dabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf a Benthyca â Chymorth. Y prif reswm dros y cynnydd yn y lefelau Benthyca â Chymorth yw'r trefniant ariannu ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer 2016/17. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cyfalaf a Benthyca â Chymorth, a thybiwyd y byddai hynny wedi ei rannu ar sail 50:50 yn 2016/17. Fodd bynnag, mae mwy o bwysoliad tuag at Fenthyca â Chymorth yn 2016/17, sy'n golygu y bu mwy o Fenthyca â Chymorth a llai o Grant Cyfalaf. Y sefyllfa hon, ynghyd â'r tanwariant yn y Cynllun Isadeiledd Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni, a'r tanwariant yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, yw'r prif resymau pam y bydd cyllido trwy'r grantiau cyfalaf yn llai na'r amcangyfrif yn 2016/17.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17. Mae yna rai cynlluniau blynyddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis y Cynlluniau Llwybr Diogelach mewn Cymunedau, Cynllun Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd, Grant Galluogi a'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae rhai cynlluniau yn dal i fynd a byddant yn ymestyn i flwyddyn ariannol 2017/18, sef cynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif a Ffordd Gyswllt Llangefni. Yn 2016/17 cwblhawyd rhai cynlluniau grant cyfalaf eraill a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol, megis Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares a'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

**3.1.2** Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan wedi cael ei dynnu i lawr yn llawn fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn 2016/17. Mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau ar y ddwy ysgol yn ystod hanner cyntaf 2017/18 a bydd yn cael ei ariannu drwy fenthyca a thrwy adnoddau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau eraill yn y rhaglen yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

**3.1.3** Y cynllun arwyddocaol arall a ddygwyd ymlaen i 2017/18 yw Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni. Cwblhawyd rhannau 1 a 2 yn ystod 2016/17 a thynnwyd cyllid i lawr yn llawn ar gyfer y rhannau hyn o'r cynllun, gan gynnwys cyllid ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i'r darganfyddiadau archeolegol annisgwyl. Dechreuodd y gwaith ar Ran 4 yn ystod mis Mawrth 2017 a bydd yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2017/18 a rhaglennwyd y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2017. Cynlluniwyd gwaith paratoadol ar Ran 3 ar gyfer hydref / gaeaf 2017/18.

**3.1.4** Y ddau gynllun cyfalaf a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol ac a gwblhawyd oedd Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares a'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Defnyddiodd Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares y cyfan o'r grant a ddyfarnwyd yn 2016/17 a llwyddodd i sicrhau cyllid ychwanegol hefyd. Bydd ail gam y cynllun yn cychwyn yn ystod 2017/18 i'r fynd i'r afael â'r elfennau afonol, ond mae hyn yn amodol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cyllid ar gyfer y gwaith. Defnyddiodd y Rhaglen Lleoedd Llewrchus Llawn Addewid y cyfan o'r grant a ddyfarnwyd yn 2016/17, ac eithrio £0.150m y mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu ei ddefnyddio tuag at y gost o ailddatblygu Neuadd y Farchnad yn 2017/18.

**3.1.5** Dyrannwyd cyllideb o £2.414m ar gyfer cynllun Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni am 2016/17 ond ni wariwyd dim ohono yn ystod y flwyddyn. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod y prosiectau hyn yn dibynnu ar dderbyn Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ac mae'r broses o geisio cael cymeradwyaeth wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Fodd bynnag, cyflwynwyd y cais am gyllid ar gyfer prosiect Llangefni yn ystod wythnosau cyntaf 2017/18 ac mae'r prosiect ar gyfer Caergybi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno yn nes ymlaen yn 2017/18. Mae cais Cyfalaf newydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18, felly, nid oes angen unrhyw lithriad o gyllideb 2016/17.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y derbyniadau cyfalaf ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2016/17 oedd:-

| | Cyllideb 2016/17 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2017 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai:** | | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 565 | 805 | 240 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 17 | 17 |
| | | | |
| **Tai Sector Preifat:** | | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau a Ad-dalwyd | 0 | 96 | 96 |
| Grantiau a Ad-dalwyd | 0 | 16 | 16 |
| | | | |
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 2,285 | 2,854 | 569 |
| Cyffredinol | 1,480 | 1,030 | (450) |
| Diwydiannol | 380 | 271 | (109) |
| Ysgolion | 1,865 | 148 | (1,717) |
| **Cyfanswm** | **6,575** | **5,237** | **(1,338)** |

**3.2.2** 'Roedd y derbyniadau Cyfalaf ar gyfer 2016/17 yn £5.237m o gymharu â'r £6.575m a ragwelwyd, sef 80% o'r gyllideb. Y prif reswm na chafwyd yr holl dderbyniadau cyfalaf disgwyliedig oedd oherwydd na werthwyd dau eiddo yn Llangefni, un am £1.675m a'r llall am £0.350m. Mae'r eiddo £0.350m wedi cael ei werthu yn ystod wythnosau cyntaf 2017/18, a disgwylir y bydd yr eiddo arall £1.675m yn cael ei werthu yn ystod 2017/18. Ar y cyfan, roedd yn flwyddyn ariannol lwyddiannus o ran derbyniadau cyfalaf a derbyniwyd dros £5m. Mae'r rhain yn yn cynnwys chwe Mân-ddaliad, Priordy Dewi Sant yng Nghaergybi, Ysgol Llanddeusant ac Unedau Diwydiannol ym Mrynsiencyn.

**3.2.3** 'Roedd y gyllideb ar gyfer derbyniadau Cyfalaf yn y Cyfrif Refeniw Tai yn sgil gwerthu eiddo dan y Cynllun Hawl i Brynu yn £0.565m ac roedd yn seiliedig ar werthu 8 eiddo. Fodd bynnag, yn ystod 2016/17 gwerthwyd 9 eiddo yn ogystal ag adeilad allanol, gan gynhyrchu £0.822m o dderbyniadau cyfalaf ar gyfer y CRT.

## 4. <u>BLYNYDDOEDD Y DYFODOL</u>

**4.1** Cafodd yr Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18 (gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £40.865m. Gellir torri hyn i lawr i Ymrwymiad Cyfredol o Raglen Gyfalaf 2016/17 (£8.826m), Asedau Cyfredol (£2.301m), Buddsoddi i Arbed (£0.186m), Ailwynebu Priffyrdd (£0.761m), Cynlluniau Newydd (£11.675m), Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth (£0.362m), Ysgolion yr 21ain Ganrif (£6.865m) a'r CRT (£9.889m). Bydd y trefniant cyllido arfaethedig yn £21.258m (52%) o ffynonellau cyllido allanol megis Grantiau Cyfalaf a £19.607m (48%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.472m o fenthyca â chymorth, £5.063m o fenthyca digefnogaeth ac mae'r gweddill, sef £11.072m, yn cael ei gyllido o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun.

**4.2** Fel y gwelir yn Atodiad B, cynigir y bydd £4.677m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2017/18 fel llithriad ar gyfer cynlluniau cyfalaf nad oeddent wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Mae 14 o gynlluniau yn y Gronfa Gyffredinol, sef cyfanswm o £1.693m, ac mae 5 cynllun yn y CRT am £2.984m. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn llithro i 2017/18 ac, ar gyfer y Gronfa Gyffredinol mae'n cynnwys £1.029m o Dderbyniadau Cyfalaf, £0.005m o Fenthyciadau, £0.411m o Grantiau Cyfalaf a £0.248m o'r Cronfeydd Wrth Gefn, gyda'r elfen CRT ar ffurf Cyfraniad Refeniw o'r CRT. Fel y gwelir yn nhabl 2.1 yr adroddiad hwn, mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau ariannu yma y gellir ei ddwyn ymlaen i 2017/18.

**4.3** Os bydd y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r llithriad yn Atodiad B bydd cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 yn £45.542m, sef £32.669m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a £12.873m i'r CRT.

## 5. EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2017 yw £134.013m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod gymryd benthyg i allu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd cymerwyd benthyg £116.935m yn allanol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), sy'n golygu yn y bôn bod angen i'r Awdurdod gymryd benthyg £17.078m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os cymerir benthyg yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 (Atodiad 11 o'r datganiad hwnnw).

## 6. CASGLIAD

Er bod lefel y tanwario yn sylweddol (£16.26m neu 31% o'r gyllideb a ddyrannwyd), mae'r rhan fwyaf o'r llithriad yn ymwneud â phrosiectau o werth uchel - CRT £5.6m, Ysgolion yr 21ain Ganrif £2.1m, Prosiectau Isadeiledd Strategol £2.4m, Priffyrdd Newydd i Wylfa newydd £2.7m. Gellir dwyn ymlaen y cyllid ar gyfer y prosiectau hyn i 2017/18.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriant i 2017/18

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2017/18 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod | 182,240 | 0 | (182,240) | 0 | 100 | | Mae'r cynllun hon wedi cael ei dynnu yn ôl o'r rhaglen gyfalaf ac yn cael ei drin yn wahanol oherwydd rydym yn gweithredu fel asiantaeth I'r prosiect |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w Gwerthu | 167,500 | 0 | (167,500) | 0 | 100 | | Mae'r cynllun hon wedi cael ei dynnu yn ôl o'r rhaglen gyfalaf ac yn cael ei drin yn wahanol oherwydd rydym yn gweithredu fel asiantaeth I'r prosiect |
| Troi Tai'n Gartrefi (2) | 167,600 | 0 | (167,600) | 0 | 100 | | Mae'r cynllun hon wedi cael ei dynnu yn ôl o'r rhaglen gyfalaf ac yn cael ei drin yn wahanol oherwydd rydym yn gweithredu fel asiantaeth I'r prosiect |
| Astudiaethau Tai a Ffioedd Ll Ll Ll A | 11,676 | 11,676 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Tai Ll Ll Ll A 1 | 17,951 | 17,951 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Tai Ll Ll Ll A 2 | 20,000 | 20,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Tai Ll Ll Ll A 3 | 18,085 | 18,085 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Tai Ll Ll Ll A 4 | 35,000 | 35,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Tai Ll Ll Ll A 5 | 24,550 | 24,550 | 0 | 100 | 0 | | |
| Pryniant Gorfodol - Cynllun Peilot | 458,550 | 121,051 | (337,499) | 26 | 74 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,560 | 692,277 | (208,283) | 77 | 23 | 208,283 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 247,000 | 57,083 | (189,917) | 23 | 77 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Grant Galluogi | 86,789 | 87,198 | 409 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Tai Cymdeithasol Lôn Cyttir | 611,511 | 611,511 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Bwlch Alltran | 5,000 | 5,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Porth Fictoria | 12,185 | 12,185 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Lôn Cyttir | 38,185 | 38,185 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Carreg Domas | 4,794 | 4,794 | 0 | 100 | 0 | | |
| Grant Ll Ll Ll A - Safleoedd ac Adeiladau Ganol y Dref | 75,398 | 75,398 | 0 | 100 | 0 | | |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 288,700 | 258,053 | (30,647) | 89 | 11 | 30,647 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| **Cyfanswm** | **3,373,274** | **2,089,997** | **(1,283,277)** | **62** | **38** | **238,930** | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 350,000 | 125,597 | (224,403) | 36 | 64 | | |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 5,190,678 | 5,422,667 | 231,989 | 104 | (4) | | |
| Cerbydau'r UCA 2016/17 | 80,000 | 95,555 | 15,555 | 119 | (19) | | |
| Gwaith Amgylcheddol | 362,500 | 259,916 | (102,584) | 72 | 28 | 102,584 | Wedi ei gyllido gan cyfraniaf refeniw CRT |
| Ailfodelu'r Stoc Bresennol | 450,000 | 6,880 | (443,120) | 2 | 98 | 443,120 | Wedi ei gyllido gan cyfraniaf refeniw CRT |
| Prynu Eiddo Bresennol | 6,452,830 | 1,626,464 | (4,826,366) | 25 | 75 | 2,000,000 | Wedi ei gyllido gan cyfraniaf refeniw CRT |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 250,000 | 439,983 | 189,983 | 176 | (76) | | |
| Risg Tân | 250,000 | 82,376 | (167,624) | 33 | 67 | 167,624 | Wedi ei gyllido gan cyfraniaf refeniw CRT |
| Offer Trawsnewid UCA | 33,000 | 0 | (33,000) | 0 | 100 | | |
| Gwaith Mewnol SATC | 750,000 | 479,721 | (270,279) | 64 | 36 | 270,279 | Wedi ei gyllido gan cyfraniaf refeniw CRT |
| Effeithlonrwydd Ynni Ll Ll Ll A | 67,347 | 67,347 | 0 | 100 | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **14,236,355** | **8,606,506** | **(5,629,849)** | **60** | **40** | **2,983,607** | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 37,000 | 36,453 | (547) | 99 | 1 | | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol | 300,000 | 125,382 | (174,618) | 42 | 58 | 174,618 | |
| Cyfleusterau Arlwyo mewn Ysgolion | 165,000 | 165,378 | 378 | 100 | 0 | | |
| Grant Thomas Howells | 46,000 | 45,896 | (104) | 100 | 0 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 7,297,000 | 6,641,042 | (655,958) | 91 | 9 | | |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi - Ll Ll Ll A | 383,068 | 383,068 | 0 | 100 | 0 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,960,000 | 3,002,628 | (957,372) | 76 | 24 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Parc y Bont | 150,000 | 4,785 | (145,215) | 3 | 97 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw/Bro Rhosyr | 390,000 | 228,107 | (161,893) | 58 | 42 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 207,000 | 0 | (207,000) | 0 | 100 | | |
| **Cyfanswm** | **12,935,068** | **10,632,739** | **(2,302,329)** | **82** | **18** | **174,618** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad % | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2017/18 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Grant Buddsoddi Busnes Caergybi Ll Ll Ll A | 110,035 | 110,035 | 0 | 100 | 0 | | |
| Prosiect cefnogi busnes Ll Ll Ll A | 53,865 | 53,865 | 0 | 100 | 0 | | |
| Porth twristiaeth Ll Ll Ll A | 29,499 | 29,499 | 0 | 100 | 0 | | |
| Arian Partneriaeth heb ei ddyrannu | 58,000 | 0 | (58,000) | 0 | 100 | | |
| Toiledau Cyhoeddus | 44,770 | 0 | (44,770) | 0 | 100 | | |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,257,000 | 0 | (1,257,000) | 0 | 100 | | Gweler paragraff 3.1.5 or adroddiad hwn |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 1,157,000 | 0 | (1,157,000) | 0 | 100 | | Gweler paragraff 3.1.5 or adroddiad hwn |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 93,000 | 8,250 | (84,750) | 9 | 91 | 84,750 | Wedi ei gyllido gan arian wrth gefn |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant Ll Ll Ll A | 13,089 | 13,089 | 0 | 100 | 0 | | |
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn - Grant Ll Ll Ll A | 8,638 | 8,638 | 0 | 100 | 0 | | |
| Datblygu Cymunedau Actif - Grant Ll Ll Ll A | 39,916 | 39,916 | 0 | 100 | 0 | | |
| Hyfforddi Amgylcheddol CG Môn - Grant Ll Ll Ll A | 20,000 | 20,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Clwb Bocsio - Grant Ll Ll Ll A | 3,098 | 3,098 | 0 | 100 | 0 | | |
| Gwelliannau Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 2,446 | 2,446 | 0 | 100 | 0 | | |
| Canolfan Cymunedol Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 80,000 | 80,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Toiledau Bae Trearddur Ll Ll Ll A | 26,913 | 26,913 | 0 | 100 | 0 | | |
| Parc Caergybi Ll Ll Ll A | 22,290 | 22,290 | 0 | 100 | 0 | | |
| Hyb chwaraeon i bobl anabl Ll Ll Ll A | 20,270 | 20,270 | 0 | 100 | 0 | | |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 3,250 | 2,501 | (749) | 77 | 23 | | |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 2,810 | 3,018 | 208 | 107 | -7 | | |
| Goleuadau LED | 38,000 | 37,749 | (251) | 99 | 1 | | |
| Goleuadau LED wedi ei gyllido gan Salix | 115,142 | 109,948 | (5,194) | 95 | 5 | 5,194 | Wedi ei gyllido gan benthyca |
| Pêl Droed Caergybi Ll Ll Ll A | 4,859 | 4,859 | 0 | 100 | 0 | | |
| Ail-doi Canolfan Hamdden | 262,500 | 264,086 | 1,586 | 101 | -1 | | |
| Ail-doi Canolfan Hamdden Caergybi | 340,000 | 319,936 | (20,064) | 94 | 6 | | |
| **Cyfanswm** | **3,806,390** | **1,180,406** | **(2,625,984)** | **31** | **69** | **89,944** | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Stryd Farchnad Ll Ll Ll A | 217 | 217 | 0 | 100 | 0 | | |
| Lôn Ravenspoint Ll Ll Ll A | 23,110 | 23,110 | 0 | 100 | 0 | | |
| Datblygu Morglawdd Ll Ll Ll A | 88,875 | 88,875 | 0 | 100 | 0 | | |
| Gwelliannau Droedffordd Caergybi Ll Ll Ll A | 99,925 | 99,925 | 0 | 100 | 0 | | |
| Meysydd Parcio | 41,390 | 28,470 | (12,920) | 69 | 31 | 12,920 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Cerbydau | 374,400 | 178,005 | (196,395) | 48 | 52 | 196,395 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 2,229,120 | 2,233,996 | 4,876 | 100 | (0) | | |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd Biwmares (LIC) | 600,000 | 72,361 | (527,639) | 12 | 88 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd | 3,784,000 | 1,049,000 | (2,735,000) | 28 | 72 | | Bid Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18, felly, ni fydd angen llithriant |
| Goleuadau LED | 80,270 | 0 | (80,270) | 0 | 100 | | |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 4,348,570 | 4,782,493 | 433,923 | 110 | (10) | | |
| Grant Diogelach Ffyrdd y Gymuned 2016/17 | 108,000 | 89,478 | (18,522) | 83 | 17 | | |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 105,000 | 100,973 | (4,027) | 96 | 4 | | |
| **Cyfanswm** | **11,882,877** | **8,746,903** | **(3,135,974)** | **74** | **26** | **209,315** | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Prynu Telehandler a phont pwyso | 118,520 | 0 | (118,520) | 0 | 100 | 97,000 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| System newydd ar gyfer casglu gwastraff | 509,000 | 480,351 | (28,649) | 94 | 6 | | |
| **Cyfanswm** | **627,520** | **480,351** | **(147,169)** | **77** | **23** | **97,000** | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Deddf Gwahaniaethu Anabledd | 100,000 | 114,859 | 14,859 | 115 | (15) | | |
| Doc Pysgod Caergygi | 96,340 | 0 | (96,340) | 0 | 100 | | |
| Mynwent Llanbedrgoch | 85,680 | 978 | (84,702) | 1 | 99 | | |
| Mynwent Llanddona | 45,590 | 52,597 | 7,007 | 115 | (15) | | |
| Mân-ddaliadau | 800,000 | 1,225,554 | 425,554 | 153 | (53) | | Gweler paragraff 2.4 or adroddiad hwn |
| **Cyfanswm** | **1,127,610** | **1,393,988** | **266,378** | **124** | **(24)** | | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | % Amrywiad % | Gorwariant i'w gario ymlaen i 2017/18 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Gweithio'n Gallach - Cyfalaf | 953,060 | 832,488 | (120,572) | 87 | 13 | | |
| Buddsoddi i Arbed - EDMS | 57,860 | 0 | (57,860) | 0 | 100 | 57,860 | Wedi ei gyllido gan arian wrth gefn |
| System Cynnwys y Wefan Gorfforaethol | 75,000 | 0 | (75,000) | 0 | 100 | | |
| Trwyddedu Meddalwedd | 72,000 | 76,359 | 4,359 | 106 | (6) | | |
| Uwchraddio Rhwydwaith | 60,000 | 0 | (60,000) | 0 | 100 | | |
| Adnewyddu Serfwyr | 150,000 | 188,016 | 38,016 | 125 | (25) | | |
| Buddsoddi i Arbed - System CRM | 135,000 | 29,223 | (105,777) | 22 | 78 | 105,777 | Wedi ei gyllido gan arian wrth gefn |
| System TG wrth gefn | 35,100 | 113,688 | 78,588 | 324 | (224) | | |
| TG - Citrix | 190,000 | 113,255 | (76,745) | 60 | 40 | 90,782 | Dyma tanwariant net TG wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| **Cyfanswm** | **1,728,020** | **1,353,029** | **(374,991)** | **78** | **22** | **254,419** | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 970,000 | 559,331 | (410,669) | 58 | 42 | 410,669 | Wedi ei gyllido gan grant cyfalaf |
| Datblygu Tirlun Ynys Gybi - Ll Ll Ll A | 3,406 | 3,406 | 0 | 100 | 0 | | |
| Ffioedd Datblygu ail ran Menter Treftadaeth Treflun - Grant Ll Ll Ll A | 353,203 | 353,203 | 0 | 100 | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **1,326,609** | **915,940** | **(410,669)** | **69** | **31** | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 459,000 | 60,879 | (398,121) | 13 | 87 | | |
| Canolfan Byron | 150,000 | 0 | (150,000) | 0 | 100 | 150,000 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Gofal Ychwanegol Llangefni | 700,000 | 700,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Adnewyddu Haulfre | 206,760 | 138,487 | (68,273) | 67 | 33 | 68,273 | Wedi ei gyllido gan llithriant mewn derbyniadau Cyfalaf |
| Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll | 98,000 | 90,170 | (7,830) | 92 | 8 | | |
| Grant Cyfalaf Cronfa Gofal Canolraddol | 243,640 | 250,235 | 6,595 | 103 | (3) | | |
| **Cyfanswm** | **1,857,400** | **1,239,771** | **(617,629)** | **67** | **33** | **218,273** | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **52,901,123** | **36,639,630** | **(16,261,493)** | **69** | **31** | **4,676,775** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **12 MEHEFIN 2017** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 4 - 2016/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1**. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2016/17.

**(ii)** Bod y sefyllfa alldro yr adroddir arni yn y ddogfen hon yn parhau i fod yn ganlyniad dros dro hyd nes y cwblheir yr archwiliad statudol.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2016, cytunodd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2016/17 a oedd yn dangos diffyg cynlluniedig o £2,738k.

**(ii)** 'Roedd y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn cynnwys cyfraniad o £8,515k at y rhaglen gyfalaf ac arbedion pellach o £250k ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai.

**(iii)** Mae'r CRT wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer gweithgareddau arbennig ac nid oes modd trosglwyddo arian wrth gefn yn y cyfrif hwn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3**. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sefyllfa alldro dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol am y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017.

**4. Trosolwg**

Mae'r sefyllfa ariannol ddrafft ar gyfer 2016/17 yn dangos tanwariant o £3,263k. Felly, mae'r CRT wedi cynhyrchu gwarged o £525k (yn erbyn diffyg cynlluniedig o £2,738k), gan adael balans o £7,567k yn y cronfeydd wrth gefn y gellir ei ddwyn ymlaen i ariannu rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol, gan gynnwys codi tai newydd, fel yr amlinellir yn y cynllun busnes 30 blynedd diweddaraf. Gweler mwy o fanylion yn Atodiad A.

**5. Incwm**

**(i)** Mae'r alldro incwm o fewn £8k (0.05%) i'r gyllideb wreiddiol.
**(ii)** Mae'r incwm yn cynnwys y grant Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr, sef £2,660k.

CC-14562-LB/193934

**6. Gwariant**

**(i)** Yn gyffredinol, mae'r gwariant yn £261k yn uwch na'r gyllideb ac mae £58k ohono'n ymwneud â chyfran y CRT o addasiadau diwedd blwyddyn i'r cynllun pensiwn.

**(ii)** Mae llawer o'r gorwariant sy'n weddill wedi digwydd oherwydd newidiadau yn y strwythur staffio yn ystod y flwyddyn na chawsant eu hadlewyrchu pan osodwyd y gyllideb yn wreiddiol. Mae hyn wedi arwain at gymysgedd o danwariannau a gorwariannau yn yr holl gategorïau gwariant, gan fod y dyraniad gwirioneddol yn wahanol i'r dyraniad y cyllidebwyd ar ei gyfer.

**7. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant sy'n rhan o'r broses gyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn, ac nid ydynt yn cael eu monitro fel arfer yn ystod y flwyddyn.

**(ii)** 'Roedd cyfran y CRT o'r costau llog a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP – sef swm sydd wedi ei neilltuo ar gyfer ad-dalu dyled yn y dyfodol) yn £314k yn is na'r gyllideb oherwydd llithriad yn rhaglen gyfalaf y CRT (gweler isod) a chynnydd mewn benthyca gan y Gronfa Gyffredinol sy'n gostwng cyfran y llog a godir ar y CRT.

**(iii)** Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn llai nag y cyllidebwyd ar ei gyfer yn wreiddiol, gan adlewyrchu ymdrechion i adennill rhent sy'n ddyledus.

**(iv)** Codir ar y CRT am ei gyfran o'r taliadau Canolog, megis rhai Cyllid, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol ac ati. Adolygir y sail ar gyfer codi'r tâl bob blwyddyn ac eleni mae cynnydd o £21k yn y swm a godir ar y CRT.

**(v)** Mae'r cyfraniad Refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf £3,457k yn is na'r gyllideb, gan adlewyrchu'r oedi cyn dechrau ar y Rhaglen Adeiladu Tai Newydd a gohirio'r gwaith o ailwampio Llawr Y Dref. Mae'r arian a 'arbedwyd' ar gael ar gyfer Rhaglenni Cyfalaf yn y dyfodol fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes 30 blynedd ar gyfer y CRT. Mae'r CTR yn ariannu ei Raglen Gyfalaf ei hun ac mae ganddo'r grym i gael benthyg os oes angen.

**8. Cynnal a Chadw**

**(i)** 'Roedd yr Uned Cynnal a Chadw Tai yn dangos gorwariant o £236k. Roedd y gorwariant oherwydd mwy o alwadau am waith trwsio gan denantiaid, mwy o waith atgyweirio offer nwy a gwariant ychwanegol oherwydd yr oedi wrth allanoli'r swyddogaeth storfeydd yn yr Uned. Dylid nodi bod gwariant ar isgontractwyr £350k yn llai na'r llynedd fel y cynlluniwyd. Bu gostyngiad pellach o £250k yng nghyllideb yr Uned ar gyfer 2016/17 ar ben gostyngiad tebyg yn 2015/16.

**(ii)** 'Roedd gorwariant ar waith trwsio a gwaith cynnal a chadw arall oherwydd gwaith ychwanegol ar systemau drysau mynediad.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

CC-14562-LB/193934

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ymgynghorir â'r Swyddog fel rhan o'r UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Alldro Dros Dro | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb CRT 2016/17 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 14 Mawrth 2016).<br>• Cynllun Busnes 30 blynedd y CRT am y cyfnod 2016/46 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 14 Mawrth 2016.) | | |

CC-14562-LB/193934

| CRT | Cyllideb 2016/17 | Gwariant Gwirioneddol | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Incwm - Anheddau | -14,950,000 | -14,953,580 | -3,580 |
| Incwm - Garejys | -212,000 | -218,805 | -6,805 |
| Incwm – Costau Gwasanaeth | -95,000 | -103,646 | -8,646 |
| Incwm - Arall | -293,000 | -281,377 | 11,623 |
| **Cyfanswm Incwm** | -15,550,000 | -15,557,408 | -7,408 |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 134,150 | 73,531 | -60,619 |
| Gweinyddu Rhenti | 140,710 | 83,809 | -56,901 |
| Rheoli Stadau | 326,420 | 406,304 | 79,884 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau Eraill (nid UCA) | 479,730 | 730,444 | 250,714 |
| Gwariant Refeniw Arall | 378,190 | 425,644 | 47,454 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **1,459,200** | **1,719,732** | **260,532** |
| | | | |
| **Addasiadau Diwedd y Flwyddyn** | | | |
| Llog/MRP | 3,210,000 | 2,896,167 | -313,833 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 137,000 | 39,634 | -97,366 |
| Ad-daliadau o'r Gwasanaeth Tai | 612,810 | 612,981 | 171 |
| Ad-daliadau o'r Gwasanaethau Canolog | 749,780 | 771,238 | 21,458 |
| Cyfraniad Refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf | 8,515,000 | 5,057,670 | -3,457,330 |
| | | | |
| **Cyfanswm CRT** | **-866,210** | **-4,459,986** | **-3,593,776** |
| | | | |
| **UCA** | 3,155,810 | 3,391,789 | 235,979 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 448,400 | 543,627 | 95,227 |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw** | **3,604,210** | **3,935,416** | **331,206** |
| | | | |
| **CYFANSWM DIFFYG CRT** | **2,738,000** | **-524,570** | **-3,262,570** |

CC-14562-LB/193934

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **12 MEHEFIN 2017** |
| **Pwnc:** | **TRETHI BUSNES – GOSTYNGIADAU YN NHRETHI'R STRYD FAWR** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH - AELOD PORTFFOLIO (CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES, PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A'R SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GERAINT JONES, RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>**01248 752651**<br>**ghjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

Yr Awdurdod i ddefnyddio ei bwerau dewisol i ganiatáu gostyngiad dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988 i weithredu cynllun dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer "Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr". Rhoddir y gostyngiad yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru – "Canllawiau Trethi Annomestig – Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" 19 Ebrill 2017 fel gwelir yn Atodiad A.

Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor i Swyddogion (rhan 3.5.3.5.19 y Cyfansoddiad), i wneud trefniadau priodol i weinyddu a phenderfynu ar geisiadau dan y cynllun "Gostyngiadau yn Nhrethi Annomestig y Stryd Fawr".

**Rhesymau**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn darparu "Gostyngiadau yn Nhrethi Annomestig y Stryd Fawr" o 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r gostyngiad wedi'i dargedu tuag at adwerthwyr stryd fawr yng Nghymru, er enghraifft siopau, tai tafarn, bwytai a chaffis - gan gynnwys yr adwerthwyr hynny sydd wedi gweld cynnydd yn eu trethi o ganlyniad i ailbrisiad 2017. Bydd y cynllun yn darparu dwy haen o ostyngiadau ar gyfer trethi annomestig o hyd at £500 (Haen 1) neu hyd at £1,500 (Haen 2) ar gyfer adwerthwyr cymwys ar y stryd fawr sydd mewn eiddo â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ym Mlwyddyn Ariannol 2017/18, yn amodol ar gyfyngiadau Cymorth Gwladol.

Mae'r gostyngiad a roddir yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo ar 1 Ebrill 2017, a yw'r trethi wedi codi o Ebrill 2017 oherwydd yr ail-brisiad ac a yw'r busnes eisoes yn gymwys i gymorth o fath arall gan Lywodraeth Cymru. Mae mwy o fanylion am y meini prawf cymhwyster ac eithriadau ar gael yn Atodiad A.

Gall Awdurdodau ganiatáu'r gostyngiad hwn yn unol ag Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a bydd unrhyw Ostyngiad Trethi'r Stryd Fawr a roddir i drethdalwyr cymwys yn cael ei dalu'n ôl yn llawn gan y Llywodraeth. Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio £225,252 i Gyngor Sir Ynys Môn yn amodol ar o leiaf un addasiad hanner ffordd drwy'r flwyddyn lle bydd rhai awdurdodau efallai wedi derbyn gormod o arian ac eraill heb gael digon.

**Cymorth Gwladol**

Rhaid i ddyfarniadau dan y cynllun "Trethi Annomestig - Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" gydymffurfio gyda Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar Gymorth Gwladol. Mae hyn yn golygu bod angen i ymgeisydd cymwys anfon Datganiad yn ôl i awdurdod yn rhoi gwybod a ydynt wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladol De Minimus arall, gan gynnwys unrhyw Ostyngiad Treth Busnes arall y mae'n ei dderbyn ar gyfer eiddo drwy'r Undeb Ewropeaidd (ac eithrio'r un y mae wnelo'r cais ag ef) - yn cadarnhau nad yw'r dyfarniad "Trethi Annomestig - Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" yn fwy na'r €200,000 y gall ymgeisydd ei hawlio dan Reoliadau De Minimus yr UE 1407/2013.

**Rhoddi'r Gostyngiad**

Rhaid llenwi ffurflen gais i ymgeisio am y gostyngiad hwn. Rhaid i fusnes adwerthu sy'n dymuno ymgeisio am y "Trethi Annomestig - Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" lenwi Ffurflen Gais a Datganiad. Bydd busnesau adwerthu sy'n gymwys dan y cynllun hwn yn cael eu nodi gan y Gwasanaeth a bydd ffurflenni cais a datganiadau'n cael eu hanfon atynt fel y gallant ymgeisio.

Amcangyfrifir y bydd 176 o fusnesau'n gymwys am ostyngiad Haen 1 dan y cynllun hwn a 121 o fusnesau'n gymwys dan Haen 2.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr unig opsiwn arall oedd peidio â derbyn y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, ni fyddai'r "Trethi Annomestig - Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" yn berthnasol i adwerthwyr ar y stryd fawr ar yr Ynys.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ddefnyddio ei bwerau dewisol dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988 i fabwysiadu cynllun gostyngiadau trethi busnes ar sail dros dro.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Cynllun gan Lywodraeth Cymru yw hwn i ddarparu gostyngiadau ychwanegol mewn trethi busnes ar sail dros dro i adwerthwyr ar y stryd fawr yn dilyn ailbrisiad 2017.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu cost y cynllun grant.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn cefnogi'r bwriad yn llawn ac yn gwerthfawrogi'r ymdrech i gefnogi busnesau/ adfywio. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Canllawiau – Trethi Annomestig – Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr: 19 Ebrill 2017

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Canllawiau – Trethi Annomestig – Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr: 19 Ebrill 2017
Llythyr Hawlio Grant ar gyfer Gostyngiad yn Nhrethi'r Stryd Fawr: 16 Mawrth 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ardrethi Annomestig

# Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr

# Canllawiau

# Cynnwys

Disgrifiad o'r canllawiau ........ 1
Cyflwyniad ........ 1
Adran 1 ........ 2
Sut bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu? ........ 2
Sut bydd y cynllun yn cael ei weinyddu? ........ 2
Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad? ........ 2
Faint o ryddhad sydd ar gael? ........ 6
Newidiadau i hereditamentau presennol gan gynnwys newid meddiant ........ 7
Cymorth Gwladwriaethol ........ 8
Adran 2 – Enghreifftiau o gyfrifon ........ 9
Adran 3 – Cymorth Gwladwriaethol ........ 10
Datganiad 'De Minimis' ........ 11
Ffurflen Gwrthod Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ........ 12

# Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr

## Canllaw

## Disgrifiad o'r canllawiau

1. Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ("y rhyddhad") a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Rhagfyr 2016. Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i Gymru yn unig.

2. Mae'r canllawiau yn gosod y meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i bennu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer rhyddhad ardrethi sy'n cael ei ddarparu i eiddo manwerthu ar y stryd fawr. Nid yw'r canllawiau yn disodli unrhyw ddeddfwriaeth bresennol ar ardrethi annomestig nac unrhyw fath arall o ryddhad.

3. Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y cynllun at: localtaxationpolicy@wales.gsi.gov.uk

4. Mae'r rhyddhad yn cael ei gynnig rhwng 1 Ebrill 2017 a bydd ar gael tan 31 Mawrth 2018.

## Cyflwyniad

5. Mae'r rhyddhad hwn wedi'i anelu at fanwerthwyr ar y stryd fawr yng Nghymru, er enghraifft siopau, tafarnau, bwytai a chaffis – gan gynnwys y manwerthwyr sydd wedi gweld eu hardrethi yn codi yn dilyn gwaith ailbrisio annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn 2017.

6. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu dwy haen o ryddhad ardrethi annomestig, sef hyd at £500 (Haen 1) neu hyd at £1,500 (Haen 2), ar gyfer manwerthwyr cymwys ar y stryd fawr sy'n defnyddio eiddo â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, yn ddarostyngedig i derfynau Cymorth Gwladwriaethol.

7. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynghylch rhoi'r cynllun hwn ar waith a'i gyflwyno.

# Adran 1

## Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr

**Sut bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu?**

8. Gan mai mesur dros dro yw hwn, rydym yn darparu'r rhyddhad drwy roi ad-daliad i awdurdodau lleol sy'n defnyddio'u pwerau rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yr awdurdodau lleol unigol eu hunain fydd yn mabwysiadu cynllun ac yn penderfynu ym mhob achos a ddylid caniatáu'r rhyddhad o dan adran 47. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ad-daliad i'r awdurdodau lleol am y rhyddhad sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r canllawiau hyn drwy grant o dan adran 31 Deddf Llywodraeth Leol 2003.

**Sut bydd y cynllun yn cael ei weinyddu?**

9. Yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu sut i weinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib yn cymryd rhan a bod cyn lleied â phosib o faich gweinyddol ar dalwyr ardrethi a staff yr awdurdod lleol. Yn amodol ar yr ystyriaethau Cymorth Gwladwriaethol a nodwyd ym mharagraffau 28 i 32, mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellid gosod y rhyddhad hwn yn uniongyrchol ar filiau talwyr ardrethi cymwys

10. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i'r rhai sy'n talu'r ardrethi ynghylch manylion a gweinyddiaeth y cynllun. Os nad oes modd i awdurdod ddarparu'r rhyddhad hwn i dalwyr ardrethi cymwys o 1 Ebrill 2017 ymlaen, am ba bynnag reswm, dylid ystyried hysbysu talwyr ardrethi cymwys eu bod yn gymwys i gael y rhyddhad, ac y bydd eu biliau'n cael eu hail-gyfrifo

11. Bydd gofyn i awdurdodau lleol nodi cyfanswm y rhyddhad a ddarparwyd o dan y cynllun yn eu Ffurflenni Ardrethi Annomestig 3 (NDR3), at ddibenion casglu data yn unig. Bydd llinell newydd ar gyfer hyn ar y ffurflen NDR3

**Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?**

12. Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo sy'n cael ei ddefnyddio ar y stryd fawr fel siopau, bwytai, caffis a thafarnau, sydd â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ar 1 Ebrill 2017. Ceir rhagor o fanylion am y meini prawf a'r eithriadau i'r rhyddhad ym mharagraffau 15 i 19.

13. Bydd dwy haen o ryddhad yn cael eu darparu gan ddibynnu ar werth ardrethol yr eiddo, a yw'r atebolrwydd yn cynyddu o 1 Ebrill 2017 ymlaen yn dilyn yr ailbrisio, ac a yw'r busnes eisoes yn gymwys i gael cymorth o fath arall gan Lywodraeth Cymru.

14. Dylid caniatáu rhyddhad i fusnesau fel taliad un-tro ar sail meddiant ar 31 Mawrth 2017 (ar yr amod bod yr un meddiannwr yn parhau i fod

mewn meddiant ar 1 Ebrill 2017). Rydym yn cydnabod y gall rhai achosion godi pan fo awdurdod lleol yn cael ei ôl-hysbysu'n ddiweddarach am newid meddiant. Mewn achosion o'r fath, os yw'n glir mai'r meddiannwr oedd yn yr eiddo ar 1 Ebrill 2017, gall yr awdurdod lleol ddefnyddio disgresiwn wrth ddyfarnu rhyddhad.

**Haen 1 – lefel is o gymorth: £500 (neu gyfanswm yr atebolrwydd sy'n weddill os yw hyn yn llai na £500)**

Y talwyr ardrethi cymwys fydd y manwerthwyr ar y stryd fawr sydd ag eiddo â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000* yn y flwyddyn ariannol 2017-18, ac sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) ar 1 Ebrill 2017; a / neu
- Derbyn Rhyddhad Trosiannol ar 1 Ebrill 2017.

*Bydd nifer fach o dalwyr ardrethi ag eiddo â gwerth ardrethol o £12,000 neu fwy sy'n derbyn Rhyddhad Trosiannol. Bydd y talwyr ardrethi hyn yn gymwys i gael rhyddhad Haen 1.

Rydym yn cydnabod hefyd y gall fod nifer fach o dalwyr ardrethi ag eiddo â gwerth ardrethol o £12,000 nad ydynt yn derbyn Rhyddhad Trosiannol ac sydd ar drothwy uchaf un y tapr SBRR, ac felly nad ydynt yn derbyn rhyddhad SBRR. Bydd talwyr ardrethi o'r fath yn gymwys i dderbyn rhyddhad Haen 1.

**Haen 2 – lefel uwch o gymorth: hyd at £1,500**

Y talwyr ardrethi cymwys fydd y manwerthwyr ar y stryd fawr sydd ag eiddo â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 yn y flwyddyn ariannol 2017-18, ac sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Heb dderbyn SBRR na Rhyddhad Trosiannol ar 1 Ebrill 2017; ac
- Wedi gweld cynnydd yn eu hatebolrwydd ar 1 Ebrill 2017 o ganlyniad i Ailbrisio 2017

15. At ddibenion y cynllun hwn, bydd eiddo ar y stryd fawr fel "siopau, bwytai, caffis a sefydliadau sy'n gwerthu diod" yn golygu fel a ganlyn (yn ddarostyngedig i feini prawf eraill yn y canllawiau).

**i. Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu nwyddau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Siopau (fel siop flodau, siop fara, cigydd, groser, siop ffrwythau a llysiau, gemydd, siop bapur ysgrifennu, siop drwyddedig, siop bapur newydd, siop caledwedd, archfarchnad ac ati)
- Optegydd
- Fferyllfeydd
- Swyddfeydd post
- Siopau dodrefn neu ystafelloedd arddangos (fel siopau carpedi, gwydr dwbl, drysau garej)
- Ystafelloedd arddangos ceir neu garafanau

- Canolfannau gwerthu ceir ail law
- Marchnadoedd
- Gorsafoedd petrol
- Canolfannau garddio
- Orielau celf (lle mae modd prynu neu logi gwaith celf)

ii. **Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Gwasanaethau trin gwallt a harddwch
- Trwsio esgidiau/torri allweddi
- Asiantaethau teithio
- Swyddfeydd tocynnau, ee ar gyfer y theatr
- Gwasanaethau sychlanhau
- Golchdai
- Trwsio cyfrifiaduron, setiau teledu neu gyfarpar domestig
- Trefnwyr angladdau
- Prosesu lluniau
- Llogi DVD neu fideo
- Llogi offer
- Llogi ceir
- Sinemâu
- Swyddfeydd gwerthu a gosod tai

iii. **Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu bwyd a/neu ddiod i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Bwytai
- Bwytai archebu o'r car
- Siopau tecawê
- Siopau brechdanau
- Caffis
- Siopau coffi
- Tafarnau
- Bariau gwin

16. Er mwyn gallu manteisio ar y rhyddhad dylai'r hereditamentau sy'n cael eu rhestru rhwng (i) a (iii) gael eu defnyddio'n bennaf neu'n gyfan gwbl fel siopau, bwytai, caffis neu sefydliadau sy'n gwerthu diod. Yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo sy'n bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio. Felly, os yw hereditamentau yn cael eu defnyddio, ond nid yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer y pwrpas cymwys, ni fyddant yn gymwys i gael y rhyddhad.

17. Nid oes bwriad i'r rhestr uchod fod yn un gwbl drylwyr, gan y byddai'n amhosibl rhestru'r holl ddefnyddiau manwerthu amrywiol sy'n bodoli ar y stryd fawr. Hefyd bydd rhai enghreifftiau'n codi o ddefnydd cymysg. Fodd bynnag, y bwriad yw rhoi arweiniad i'r awdurdodau lleol ynghylch y mathau o ddefnydd sy'n cyfrif fel manwerthu ar y stryd fawr ym marn Llywodraeth Cymru at y diben hwn. Dylai awdurdodau lleol benderfynu dros eu hunain a yw eiddo penodol nad yw ar y rhestr yn gyffredinol

debyg o ran natur i'r uchod. Os felly dylid ei ystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun. Yn yr un modd, os nad yw eiddo yn debyg yn gyffredinol i'r rhai ar y rhestr uchod, ni ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

18. Gan fod y rhyddhad ardrethi yn cael ei roi yn ôl disgresiwn, gall awdurdodau lleol benderfynu peidio â'i ganiatáu os ydynt yn teimlo mai dyna sy'n briodol, er enghraifft os yw hynny'n mynd ar draws amcanion ehangach yr awdurdod ar gyfer ardal leol.

**Y mathau o hereditamentau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi'r stryd fawr**

19. Mae'r rhestr isod yn nodi'r mathau o ddefnydd nad sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel manwerthu ar y stryd fawr at ddiben y cynllun hwn, ac na fyddai'n gymwys i gael y rhyddhad. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu a yw hereditamentau yn debyg o ran natur i'r rhai sy'n cael eu rhestru isod ac os na fyddent yn gymwys i gael y rhyddhad o dan y cynllun.

**i. *Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw***

- Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthycwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)
- Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)
- Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)
- Swyddfa ddosbarthu Swyddfa'r Post
- Llety twristiaeth, ee Gwely a Brecwast, gwestau a pharciau carafanau
- Clybiau chwaraeon
- Canolfannau chwarae plant
- Meithrinfeydd dydd
- Canolfannau gweithgareddau awyr agored
- Campfeydd
- Llety cŵn a chathod
- Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata
- Asiantaethau cyflogaeth

Mae nifer o fathau eraill o hereditamentau y mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylent fod yn gymwys ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr.

**ii. *Hereditamentau â gwerth ardrethol o dros £50,000***

Cydnabyddir bod rhai busnesau manwerthu ar y stryd fawr sydd â gwerth ardrethol dros y trothwy o £50,000 sydd hefyd yn gweld cynnydd yn eu gwerth ardrethol o ganlyniad i Ailbrisio 2017. Ni fydd eiddo o'r fath yn gymwys i dderbyn y rhyddhad hwn. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol y dewis i

ddefnyddio'u pwerau yn ôl disgresiwn i gynnig gostyngiadau y tu allan i'r cynllun hwn i fusnesau o'r fath os yw hynny er budd y gymuned leol.

iii. ***Hereditamentau nad ydynt yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw***

Os nad yw hereditamentau'n rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw, ni fyddant yn gymwys i gael rhyddhad o dan y cynllun hyd yn oed os oes defnydd atodol o'r hereditament y gellid ystyried ei fod yn syrthio o dan y disgrifiadau ym mharagraff 15 (i), (ii) neu (iii).

iv. ***Hereditamentau sydd mewn parciau manwerthu neu ystadau diwydiannol y tu allan i'r dref***

Bydd yr hyn sy'n cyfrif fel manwerthwr ar y stryd fawr yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, ac mae i fyny i'r awdurdodau benderfynu ar hyn yn eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, nid yw hereditamentau mewn parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol y tu allan i'r dref yn cael eu hystyried fel y stryd fawr at ddiben y rhyddhad hwn, hyd yn oed os oes defnydd atodol o'r hereditament y gellid ystyried ei fod yn syrthio o dan y disgrifiadau ym mharagraff 15 (i), (ii) neu ( iii). Gan fod y rhyddhad hwn yn un dewisol, gall yr awdurdodau eu hunain benderfynu a yw eiddo penodol yn cyfrif fel manwerthwr ar y stryd fawr.

v. ***Hereditamentau gwag***

Dylai pob eiddo sy'n wag ar 1 Ebrill 2017 gael ei eithrio rhag y rhyddhad hwn. Fodd bynnag, o dan y cynllun Rhyddhad Eiddo Gwag, bydd eiddo gwag yn derbyn gostyngiad o 100% yn ei ardrethi ar gyfer y tri mis cyntaf (ac mewn rhai achosion y chwe mis cyntaf) o fod yn wag.

vi. ***Hereditamentau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol***

Mae'r eiddo yma eisoes yn derbyn rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol sy'n rhoi 80% o ostyngiad mewn atebolrwydd, ac fe all yr awdurdodau hefyd ddewis darparu rhyddhad elusennol dewisol a all leihau'r atebolrwydd sy'n weddill i ddim. O ganlyniad, ni fydd yr eiddo yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi'r stryd fawr.

**Faint o ryddhad sydd ar gael?**

20. Cyfanswm y rhyddhad a ariennir gan y Llywodraeth sydd ar gael i bob eiddo am 12 mis o dan y cynllun hwn yw hyd at £500 ar gyfer eiddo Haen 1 a hyd at £1,500 ar gyfer eiddo Haen 2.

21. Gall y rhyddhad hwn gael ei ddarparu yn ychwanegol at SBRR a Rhyddhad Trosiannol. Dylid gosod Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr yn erbyn y bil net ar ôl gweithredu'r ddau ryddhad hyn. Dylai unrhyw ryddhad caledi neu ddewisol sy'n cael ei ddyfarnu gan yr awdurdod lleol gael ei ystyried gan yr awdurdod lleol ar ôl i bob rhyddhad ardrethi arall gael ei ddyfarnu.

22. Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi a'r rhyddhad ei hun yn cael ei asesu a'i gyfrifo ar sail ddyddiol. Dylid defnyddio'r fformiwla ganlynol wrth benderfynu ar swm y rhyddhad ardrethi i'w ganiatáu ar gyfer hereditament penodol yn ystod blwyddyn ariannol:

Swm y rhyddhad i'w ganiatáu = swm yr arian ar gyfer Haen 1 neu Haen 2 (dilëir fel y bo'n briodol) x A/B

Lle bydd:
A yn nifer y diwrnodau yn y flwyddyn ariannol y mae'r hereditament yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi; a
B yn nifer y diwrnodau yn y flwyddyn ariannol

23. Wrth gyfrifo'r rhyddhad, os yw'r atebolrwydd net cyn Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr yn £500 neu lai ar gyfer Haen 1, neu'n £1,500 neu lai ar gyfer Haen 2, bydd uchafswm y rhyddhad hwn yn ddim mwy na gwerth yr atebolrwydd net. Dylid cyfrifo hyn gan anwybyddu unrhyw addasiadau blwyddyn flaenorol i'r atebolrwydd sy'n syrthio ar y diwrnod.

24. Bydd busnesau sy'n talu ardrethi ac sy'n defnyddio mwy nag un eiddo yn gallu cael Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ar gyfer pob eiddo cymwys, hyd at derfyn de minimis y Cymorth Gwladwriaethol.

**Newidiadau i hereditamentau presennol gan gynnwys newid meddiant**

25. Bydd cymhwysedd ar gyfer y rhyddhad yn cael ei gyfrifo ar sail amgylchiadau'r eiddo a'r talwr ardrethi ar 1 Ebrill 2017. Ni fydd newidiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd ar gyfer y rhyddhad hwn.

26. Ni fydd eiddo gwag sy'n dechrau cael ei ddefnyddio ar ôl 1 Ebrill 2017 yn gymwys i gael y rhyddhad hwn.

27. Os oes newid meddiant yn ystod y flwyddyn ariannol, ar ôl i'r rhyddhad gael ei ddarparu i'r hereditament, ni fydd y meddiannydd newydd yn gymwys i dderbyn y rhyddhad.

28. Y bwriad yw symleiddio gweinyddiaeth y cynllun, ac adlewyrchu'r ffaith bod y rhyddhad yno i helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr ailbrisio. Rhagdybir y bydd gwerthoedd ardrethol eiddo sy'n cael eu meddiannu ar ôl 1 Ebrill 2017 yn hysbys cyn y meddiant, ac y byddai hynny wedi'i ystyried cyn cymryd meddiant o'r eiddo.

**Cymorth Gwladwriaethol**

29. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn rheoleiddio cymorth i fusnesau a ariennir gan wladwriaethau drwy gyfraith Cymorth Gwladwriaethol. Mae darparu rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn yn debyg o gael ei gyfri fel Cymorth Gwladwriaethol. Bydd Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr yn cydymffurfio â Chymorth Gwladwriaethol pan gaiff ei ddarparu yn unol â'r Rheoliad De Minimis (1407/2013).

30. Mae'r Rheoliad De Minimis yn caniatáu i fenter gael hyd at €200,000 o gymorth De Minimis mewn cyfnod o dair blynedd (sy'n cynnwys y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol). Dylai awdurdodau lleol ymgyfarwyddo â thelerau'r esemptiad Cymorth Gwladwriaethol hwn, yn arbennig y mathau o fentrau sy'n cael eu heithrio rhag derbyn cymorth De Minimis, y diffiniad perthnasol o fenter, a'r gofyniad i droi'r cymorth yn Ewros.

31. Er mwyn gweinyddu De Minimis, rhaid i awdurdod lleol gadarnhau na fydd dyfarnu cymorth yn arwain at fenter yn derbyn dros €200,000 o gymorth De Minimis. Sylwch fod y trothwy ond yn berthnasol i'r cymorth sy'n cael ei ddarparu o dan Reoliadau De Minimis (nid yw cymorth o dan esemptiadau eraill neu sydd y tu hwnt i gwmpas Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol i'r cyfrifiad De Minimis).

32. Mae Adran 3 o'r canllaw hwn yn cynnwys enghraifft o ddatganiad De Minimis y gallai awdurdodau lleol fod eisiau ei ddefnyddio. Os bydd gan awdurdodau lleol ragor o gwestiynau ynghylch De Minimis neu agweddau eraill ar gyfraith Cymorth Gwladwriaethol, dylent gysylltu â'u hadrannau cyfreithiol am gyngor yn gyntaf.

33. Mae'r cyfarwyddiadau desg ynghylch gweinyddu cynlluniau De minimis i'w gweld ar:

http://gov.wales/funding/state-aid/de-minimis-aid/?skip=1&lang=cy

http://ec.europa.eu/competition/state_aid/legislation/de_minimis_regulation_en.pdf

# Adran 2 – Enghreifftiau o gyfrifon

SBRR – Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach
TR – Rhyddhad Trosiannol
HSRR – Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr

| **Enghraifft 1** | **£** |
|---|---|
| Gwerth Ardrethol 2010 | = 6,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol 2010 @ 0.486 | = 2,916 |
| Atebolrwydd 2010 ar ôl SBRR | = 0 |
| | |
| Gwerth Ardrethol 2017 | = 8,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol @ 0.499 | = 3,992 |
| Atebolrwydd ar ôl SBRR | = 1,331 |
| Atebolrwydd ar ôl TR | = 333 |
| HSRR Haen 1 | = 333 |
| Atebolrwydd 2017 ar ôl HSRR Haen 1 | = 0 |

| **Enghraifft 2** | **£** |
|---|---|
| Gwerth Ardrethol 2010 | = 9,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol 2010 @ 0.486 | = 4,374 |
| Atebolrwydd 2010 ar ôl SBRR | = 2,187 |
| | |
| Gwerth Ardrethol 2017 | = 14,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol @ 0.499 | = 6,986 |
| Atebolrwydd ar ôl SBRR | = 6,986 |
| Atebolrwydd ar ôl TR | = 3,387 |
| HSRR Haen 1 | = 500 |
| Atebolrwydd 2017 ar ôl HSRR Haen 1 | = 2,887 |

| **Enghraifft 3** | **£** |
|---|---|
| Gwerth Ardrethol 2010 | = 15,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol 2010 @ 0.486 | = 7,290 |
| Atebolrwydd 2010 ar ôl SBRR | = 7,290 |
| | |
| Gwerth Ardrethol 2017 | = 24,000 |
| Atebolrwydd sylfaenol @ 0.499 | = 11,976 |
| Atebolrwydd ar ôl SBRR | = 11,976 |
| Atebolrwydd ar ôl TR | = 11,976 |
| HSRR Haen 2 | = 1,500 |
| Atebolrwydd 2017 ar ôl HSRR Haen 2 | = 10,476 |

# Adran 3 – Cymorth Gwladwriaethol

**Enghreifftiau o baragraffau y gellid eu cynnwys mewn llythyrau i'r rhai sy'n talu ardrethi yn 2017-18 ynglŷn â Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr**

Ar 16 Chwefror 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai rhyddhad o hyd at £1,500 yn cael ei ddarparu i bob eiddo manwerthu cymwys sy'n cael ei ddefnyddio, lle bo'r gwerth ardrethol yn £50,000 neu lai yn ystod 2017-18. Mae eich bil ardrethi presennol yn cynnwys y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr hwn ar gyfer 2017-18.

Rhaid i ddyfarniadau fel Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr gydymffurfio â chyfraith yr UE ar Gymorth Gwladwriaethol[1]. Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu dychwelyd y datganiad a atodwyd i'r awdurdod hwn os ydych wedi cael unrhyw Gymorth Gwladwriaethol De Minimis arall, gan gynnwys unrhyw Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr arall yr ydych chi'n ei gael ar gyfer eiddo ar wahân i'r un y mae'r bil a'r llythyr hwn yn cyfeirio ato. Dylech hefyd gadarnhau nad yw'r dyfarniad o Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr yn fwy na'r €200,000 y gall menter[2] ei gael o dan Reoliadau De Minimis EC 1407/2013.

Llenwch y datganiad a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad uchod. O ran datgan cymorth De Minimis blaenorol, cymorth De Minimis yw'r unig gymorth cyhoeddus sydd o ddiddordeb i ni (nid oes angen datgan Cymorth Gwladwriaethol o dan eithriadau eraill neu gymorth cyhoeddus nad yw'n Gymorth Gwladwriaethol).

Os nad ydych wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladwriaethol De Minimis arall, gan gynnwys unrhyw Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr arall yr ydych chi'n ei gael am eiddo ar wahân i'r eiddo y mae'r bil a'r llythyr hwn yn cyfeirio ato, nid oes angen i chi lenwi na dychwelyd y datganiad.

Os ydych yn dymuno gwrthod derbyn y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a roddir ichi mewn cysylltiad â'r eiddo y mae'r bil a'r llythyr hwn yn cyfeirio ato, llenwch y ffurflen a atodwyd a'i dychwelyd i'r cyfeiriad uchod. Nid oes angen i chi lenwi'r datganiad. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r eiddo hynny sy'n rhan o gadwyn fanwerthu fawr, lle gallai cyfanswm cronnus y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a dderbynnir fod yn fwy na €200,000.

O dan reolau'r Comisiwn Ewropeaidd, rhaid ichi gadw'r llythyr hwn am 3 blynedd o ddyddiad y llythyr hwn, a'i ddangos ar gais awdurdodau cyhoeddus y Deyrnas Unedig neu'r Comisiwn Ewropeaidd. (Efallai y bydd angen i chi gadw'r llythyr hwn am gyfnod hwy na thair blynedd at ddibenion eraill). At hynny, rhaid rhoi gwybodaeth am y cymorth hwn i unrhyw awdurdod cyhoeddus neu asiantaeth arall sy'n gofyn am wybodaeth am gymorth 'De Minimis' dros y tair blynedd nesaf.

---

1. Mae rhagor o wybodaeth am gyfraith Cymorth Gwladwriaethol yn <https://www.gov.uk/state-aid>

2 Menter yw endid sy'n gwneud gweithgarwch economaidd. Mae hyn yn golygu rhoi nwyddau neu wasanaethau ar farchnad benodol. Yr hyn y mae'r endid yn ei wneud sy'n bwysig, nid ei statws. Felly, gall elusen neu gwmni dielw fod yn fentr os yw'n cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd. Fel rheol bydd un fenter unigol yn cynnwys y grŵp busnes i gyd, yn hytrach na chwmni unigol o fewn grŵp. Mae Erthygl 2.2 y Rheoliadau De Minimis (Rheoliad y Comisiwn EC/ 1407/2013) yn diffinio ystyr 'menter unigol'.

**Datganiad 'De Minimis'**

Annwyl [ ]

RHIF CYFRIF ARDRETHI ANNOMESTIG:______________________

Gwerth y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd fawr ar ardrethi annomestig a ddarperir i [enw'r fenter] gan [enw'r awdurdod lleol] yw £ [ ] (Ewros [ ]).

Bydd y dyfarniad hwn yn cydymffurfio â chyfraith yr UE ar Gymorth Gwladwriaethol ar yr amod na fydd [enw'r fenter] yn derbyn mwy na chyfanswm o €200,000 o gymorth De Minimis, gan gynnwys y dyfarniad hwn, o fewn y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Gellir gweld Rheoliadau De Minimis 1407/2013 (fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd L352 24.12.2013) yn: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2013:352:0001:0008:EN:PDF.

| Swm y cymorth De Minimis | Dyddiad y cymorth | Sefydliad sy'n darparu'r cymorth | Natur y cymorth |
|---|---|---|---|
| € | 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018 | Awdurdodau lleol (nid oes angen ichi nodi enwau'r awdurdodau unigol ar gyfer cyfanswm Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr) | Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr |
| | | | |
| | | | |

Cadarnhaf:

1) Bod gennyf awdurdod i lofnodi ar ran _________________[enw'r fenter]; a

2) Na fydd __________________[enw'r fenter] yn mynd y tu hwnt i'w throthwy De Minimis trwy dderbyn y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr hwn.

LLOFNOD:

ENW:

SAFLE:

BUSNES:

CYFEIRIAD:

DYDDIAD:

**Ffurflen Gwrthod Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr**

| Enw a chyfeiriad yr eiddo | Rhif cyfrif ardrethi annomestig | Swm y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr |
|---|---|---|
| | | |

Cadarnhaf fy mod yn dymuno gwrthod y Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr mewn cyswllt a'r eiddo uchod.

Cadarnhaf fod gennyf awdurdod i lofnodi ar ran ______________ [enw'r fenter].

LLOFNOD:

ENW:

SAFLE:

BUSNES:

CYFEIRIAD:

DYDDIAD:

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **12 Mehefin 2017** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Rheoli Ynni 2017-2022** |
| **Aelod Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rhys Griffith**<br>**01248 752161**<br>**rhghp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **-** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Ynni am y cyfnod 2017 - 2022<br><br>Mae sawl rheswm am yr argymhelliad, gan gynnwys yr angen i ymateb i Strategaethau Cenedlaethol a Strategaethau Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, paratoi ar gyfer costau ynni uwch, ansicrwydd ynghylch y cyflenwad, lleihau niwed tymor hir i'r amgylchedd a sicrhau bod gennym swyddogion y dynodwyd cyfrifoldeb iddynt wneud defnydd o grantiau sydd ar gael gan y llywodraeth ac a fedr leihau’r defnydd o ynni. Mae'r strategaeth yn sicrhau bod y Cyngor yn dangos ei ymrwymiad i sicrhau gostyngiad hirdymor yn ei ddefnydd o ynni ac i leihau allyriadau carbon. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Dim |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Codi ymwybyddiaeth o faterion Rheoli Ynni |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi – cytunwyd ar Bolisi Ynni’r Cyngor eisoes. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Yndi – Dim cais am gyllid ychwanegol. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau wedi ei dderbyn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Gweler D uchod. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | • Diffyg gwelediaeth yw'r elfen sydd yn creu pryder mwyaf; mae angen swyddog yn arwain ar hwn yn hytrach na'i fod yn dasg arall i unigolyn sydd mwy na thebyg gyda llwyth gwaith uchel yn barod? Mae perygl y bydd y Cyngor unwaith eto yn methu cymryd mantais llawn ar y cyfle arbennig sydd yna efo'r gwaith yma.<br>• Buasai rhan fwyaf o arbedion ariannol y gwasanaeth yma yn gallu dod o arbedion ynni, gya'r pwyslais iawn.<br>• Mae angen tîm o swyddogion yn gweithio ar hyn er mwyn creu y cynllun gorau. |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni

# 2017 - 2022

Awdur: Rhys Griffith f1.2

# Cynnwys

Rhagair

Pam mae angen strategaeth ynni arnom

Y Nod ac Amcanion Allweddol

Sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion allweddol

Rolau a Chyfrifoldebau

Trefniadau Llywodraethiant (yn cynnwys strwythur y bwrdd)

Rheoleiddio

Cyllid

Caffael

Mesur a Monitro

Hyfforddiant a Datblygiad

Cynllun Gweithredu

Atodiad A Polisi Ynni

Atodiad B Ffigyrau Defnydd Ynni Ynys Môn

Atodiad C Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Nodau

Atodiad D Data Defnydd Ynni

# Rhagair

Mae sicrhau cyflenwad ynni fforddiadwy, carbon isel a diogel yn hanfodol i ddyfodol yr ynys. Wrth i gostau tanwydd barhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae angen i'r Cyngor gymryd camau nawr er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud llai o ddefnydd o ynni ac i geisio darparu ffynonellau ynni carbon isel, lleol.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys targed uchelgeisiol i wneud gostyngiad o 15% yn ein defnydd o ynni yn y pum mlynedd nesaf. Gellir gwneud hyn, gyda'r adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd, ar yr amod ein bod yn ymrwymo'n barhaus i'r strategaeth hon, gan sicrhau bod gennym y staff a'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i hyrwyddo prosiectau a fydd yn sicrhau buddion tymor hir i'r Cyngor.

Mae'n bleser gennyf gymeradwyo'r strategaeth hon sy'n dangos ymrwymiad tymor hir y Cyngor i leihau ein defnydd o ynni a'n hôl- troed carbon.

**Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

# Pam mae angen Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni arnom – sail resymegol

## *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni'r holl nodau llesiant (atodiad C). Mae'r cyntaf o'r nodau hyn *'Cymru Lewyrchus', yn nodi Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd)...*

## *Difrod i'n Hamgylchedd*

Fel Ynys, mae Ynys Môn yn agored iawn i effeithiau hirdymor cynhesu byd-eang a lefelau môr uwch. Mae un amcangyfrif yn awgrymu y bydd cynnydd o 2 radd ganradd yn golygu y bydd lefel y môr yn codi 7 metr o fewn 500 mlynedd gyda hynny'n cael effaith drychinebus ar ein morlin. Mae'r strategaeth yn mynd ati i geisio sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan er mwyn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol rhag effeithiau newid hinsawdd.

## *Costau ynni cynyddol*

Roedd gwariant blynyddol Cyngor Ynys Môn ar ynni a dŵr dros £2.1 miliwn yn 2015/16 (atodiad B). Mae cost tanwydd yn parhau i gynyddu ar lefel uwch na chwyddiant. Drwy fabwysiadu argymhellion y strategaeth hon, gall y Cyngor liniaru'r costau hyn ar gyfer y dyfodol.

## *Cyflenwad Ynni Ansicr*

Mae'r DU yn mewnforio canran gynyddol o'i hynni o dramor gan olygu llai o sicrwydd o ran cyflenwad a llai o sefydlogrwydd o ran pris. Gall y Cyngor gyfrannu tuag at gefnogi a chreu ynni yn lleol.

## *Ymrwymiad Llywodraeth Prydain*

Yn 2008, sefydlodd y Ddeddf Newid Hinsawdd darged newid hinsawdd sy'n gyfreithiol rwymol. Y nod yw sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y DU (o gymharu â gwaelodlin 1990) erbyn 2050.

## *Ymrwymiad Llywodraeth Cymru*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ei hun sef Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni 2016-2026. Y weledigaeth yn y strategaeth hon yw Cymru sy'n fwy ynni-effeithlon erbyn 2025: "Rydym am sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni, a dod yn un o brif allforwyr technoleg a gallu ym maes effeithlonrwydd ynni."

## *Tlodi Tanwydd*

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod aelwyd yn dioddef tlodi tanwydd pan fydd costau gwresogi yn uwch na 10% o'i hincwm. Gall ein Gwasanaeth Tai barhau i gyfrannu i'r nod o ddileu tlodi tanwydd drwy fuddsoddi mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n dda a chreu ynni, megis pŵer solar, yn lleol.

## *Twf Economaidd*

Drwy fenter datblygu economaidd, sef y Rhaglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud cryn waith cychwynnol o ran datblygu a gyrru'r potensial ar gyfer twf economaidd, cefnogi twf sgiliau a swyddi gwyrdd a gwneud busnesau lleol yn fwy cystadleuol. Mae angen i'r Cyngor barhau i gyflawni'r rôl hon a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu yn yr economi werdd.

## *Ble ydym ni rŵan?*

Yn ddiweddar, ymchwiliwyd i nifer o brosiectau arbed ynni ac mae rhai wedi cael eu gweithredu. Mae goleuadau LED wedi eu gosod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, mewn canolfannau hamdden ac mewn goleuadau stryd, a fydd yn sicrhau arbedion sylweddol yn y dyfodol. Mae ysgolion newydd wedi eu hadeiladu i safon ragoriaeth BREEAM gyda lefelau uchel o inswleiddiad trwy ddefnyddio technoleg arbed ynni newydd. Mae'r stoc dai wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol sydd wedi talu am inswleiddiad allanol a gosod paneli solar.

Mae hyn wedi bod yn ddechreuad calonogol ond mae llawer mwy y gellir ei wneud ac sydd angen ei wneud oherwydd, er y gwaith uchod, ychydig iawn o newid a welwyd ers 2010 yn y lefelau carbon a gynhyrchwyd o ganlyniad i ddefnydd ynni yn ein hadeiladau ar draws ein stad.

# Y Nod

<u>***Nod*** y strategaeth hon yw y bydd Cyngor Sir Ynys Môn, erbyn 2022, wedi sicrhau gostyngiad o 15% yn ei ddefnydd o ynni ac y byddwn wedi cychwyn ar ein taith o sicrhau bod yr holl ynni yr ydym yn ei ddefnyddio'n dod o ffynhonnell garbon niwtral erbyn 2050</u>

Yr ***amcanion allweddol*** a nodir yn y strategaeth hon er mwyn gallu cwrdd â'r nod yw: –

- Lleihau'r defnydd o ynni gan ein stad a gostwng gwariant cysylltiedig drwy hynny
- Annog ynni gwyrdd, adnewyddadwy ar yr Ynys gan arwain drwy esiampl
- Ysgogi cyfleoedd busnes a chreu swyddi sy'n codi o'r economi werdd

Er mwyn gallu cyflawni'r her hon, byddwn yn sicrhau gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy -

- buddsoddi mewn technoleg carbon isel,
- sicrhau bod ein hadeiladau yn cwrdd â'r safonau effeithlonrwydd ynni uchaf,
- ymgorffori'r dechnoleg ddiweddaraf mewn perthynas ag arbed a chreu ynni.

Er mwyn sicrhau hyn, byddwn yn manteisio ar grantiau a chynlluniau benthyciadau'r llywodraeth er mwyn adnewyddu adeiladau presennol a sicrhau bod yr holl adeiladau newydd yn bodloni'r safonau effeithlonrwydd ynni uchaf posibl.

Byddwn yn sicrhau bod ein holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau yn ystyried yr agenda hon tra'n annog ac yn ennyn brwdfrydedd ymysg pobl a chymunedau ledled Ynys Môn er mwyn cydnabod buddion dyfodol carbon isel i bawb.

# Sut byddwn yn cyflawni'r amcanion allweddol

Y strategaeth hon yw'r fframwaith corfforaethol a fydd yn galluogi rheolaeth ynni i ddatblygu ac integreiddio â gweithgareddau eraill er mwyn sicrhau bod y defnydd o ynni'n rhan o'r feddylfryd graidd. Bydd llawer o bolisïau, prosesau a phenderfyniadau'r Cyngor yn effeithio ar ein defnydd o ynni.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion bydd angen i ni -

1. sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn deall eu rôl;
2. adrodd yn ôl yn rheolaidd ar gynnydd a defnydd o ynni;
3. sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau;

4 datblygu prosiectau er mwyn lleihau defnydd yn seiliedig ar flaenoriaethu'r wybodaeth sy'n dangos mai'r isod sy'n gwneud y defnydd mwyaf o ynni -
    i. Ysgolion
    ii. Canolfannau Hamdden
    iii. Goleuadau Stryd;
5 ystyried materion effeithlonrwydd ynni wrth brynu nwyddau a gwasanaethau a chyflenwadau ynni;
6 cadw golwg ar ein defnydd o ynni drwy fesur a monitro
7 sicrhau hyfforddiant a datblygiad rheolaidd ar faterion effeithlonrwydd ynni a thechnoleg newydd;
8 sicrhau bod adeiladau newydd yn ystyried y nod hirdymor o fod yn garbon niwtral;
9 sicrhau bod y cynllun rheoli asedau yn cynnwys y strategaeth ynni hon
10 ystyried yr angen i adolygu'r polisi ynni pan fo angen

# Rolau a Chyfrifoldebau

## Rheolwr Ynni

Bydd y Prif Syrfëwr yn yr Adran Gwasanaethau Eiddo yn cymryd y cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Bydd y Rheolwr Ynni yn:

- datblygu’r cynllun gweithredu ynni a rheoli’r prosiect;
- monitro ac adrodd ar ddefnydd ynni, cost ac allyriadau carbon cysylltiedig;
- nodi a gweithredu cyfleoedd ar gyfer lleihau defnydd ynni ac ar gyfer defnyddio ffynonellau sydd â lefelau carbon is;
- sicrhau ymwybyddiaeth o’r gofynion rheoleiddiol diweddaraf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
- nodi ffynonellau cyllido ar gyfer buddsoddiadau effeithlonrwydd ynni;
- ymgysylltu â chymorth allanol
- cadeirio’r bwrdd arbed ynni;
- hyrwyddo mesurau arbed ynni ar draws y Cyngor.

## Eiriolydd Ynni Corfforaethol

Bydd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo hefyd yn gweithredu fel yr Eiriolydd Ynni a bydd ganddo / ganddi ddealltwriaeth a diddordeb brwd mewn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a sicrhau bod materion ynni yn cael eu hystyried ym mhenderfyniadau’r Cyngor.

## Eiriolwyr Ynni Adrannol

Bydd adrannau perthnasol yn dewis un aelod o staff i weithredu fel eiriolydd ynni ar gyfer yr adran. Bydd eiriolydd ynni'r adran yn mynychu cyfarfodydd chwarterol o’r Bwrdd Arbed Ynni, yn cynorthwyo â datblygiad prosiectau ynni, yn hyrwyddo arbedion ynni o fewn eu hadran, yn annog eraill i arbed ynni ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â’r polisi ynni.

## Swyddog Cadwraeth Ynni

Bydd y Swyddog Cadwraeth Ynni yn gweithio gyda’r Rheolwr Ynni, yn monitro defnydd o ynni drwy ddefnyddio meddalwedd briodol, yn cynorthwyo gyda monitro prosiectau ynni a phob agwedd ar y cynllun effeithlonrwydd ynni.

## Caffael

Bydd y tîm Caffael corfforaethol yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod cynhyrchion ac offer o'r safon uchaf o ran effeithlonrwydd ynni. Gall y Cyngor wneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau'r defnydd o ynni drwy sicrhau ein bod yn prynu'r offer TG mwyaf effeithiol, oergelloedd ynni isel ac ati. Bydd y rheolwr ynni a'r staff caffael yn adolygu'r broses gaffael er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i effeithlonrwydd ynni wrth brynu nwyddau.

## Penaethiaid Gwasanaeth

Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn sicrhau bod effaith defnyddio ynni yn cael ei hystyried ym mholisïau a gweithdrefnau pob gwasanaeth. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ymysg staff eu hadrannau.

## Uwch Gyfrifydd

Bydd yr Uwch Gyfrifydd yn gyfrifol am sicrhau yr adroddir yn ôl yn fanwl gywir ar ddefnydd ynni ledled y Cyngor i'w ystyried yng nghyfarfodydd adolygu gwasanaeth y Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

## Yr Holl Staff


Mae angen i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r angen i arbed ynni. Troi goleuadau ac offer TG i ffwrdd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, troi'r gwres i lawr ac ati. Gall pethau bach arwain at arbedion ynni sylweddol os yw pawb yn cymryd rhan.

# Trefniadau Llywodraethiant

Mae gan y strategaeth ynni gysylltiad allweddol â nifer o strategaethau eraill yn y Cyngor ac yn bwysicaf oll, y cynllun rheoli asedau ar gyfer yr awdurdod. O ganlyniad, gwahoddir y Rheolwr Ynni i fynychu'r Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau (GATA) er mwyn adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun effeithiolrwydd ynni ac i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i faterion ynni wrth benderfynu ar opsiynau ar gyfer asedau yn y dyfodol.

Bydd y Rheolwr Asedau hefyd, ar gais, yn cyflwyno adroddiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn amlinellu cynnydd yn erbyn y cynllun ac yn amlinellu'r cyfleoedd a allai godi yn y dyfodol.

Bydd y Rheolwr Ynni hefyd yn cadeirio cyfarfod y bwrdd prosiect effeithlonrwydd ynni a fydd yn cynnwys swyddogion gweithredol yn ymgymryd â gwaith er mwyn cael sicrwydd bod materion yn cael sylw /  risgiau'n cael eu hadnabod a bod adroddiadau prif bwyntiau'n cael eu drafftio ar gyfer ystyriaeth y GATA ac wedi hynny, cyfarfod y Bwrdd Rhaglen Gorfforaethol drwy eithriad.


Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini
UDA
Bwrdd TRAWSNEWID CORFFORAETHOL
Cadeirio: CT
Bwrdd TRAWSNEWID PARTNERIAETHAU
Cadeirio: AM
Grŵp Tir ac Asedau
Cadeirio: AM
Grwpiau Cadwraeth Ynni
a) Ysgolion
b) Hamdden
c) Goleuadau strydoedd
Prosiectau

Bydd y bwrdd prosiect effeithlonrwydd ynni, a gadeirir gan y Rheolwr Ynni ac sy'n cynnwys eirolwyr ynni o bob gwasanaeth, yn enwedig felly gynrychiolwyr o'r Adrannau Cyllid, Datblygu Economaidd a Thai, yn creu rhestr o brosiectau posib, yn edrych ar ffynonellau cyllidi posib, yn penderfynu ar flaenoriaethau ac yn awgrymu pa brosiectau y dylid eu gweithredu.

Yna, bydd y rhestr hon o flaenoriaethau yn cael ei chyflwyno i'r grŵp Asedau Tir ac Adeiladau ar gyfer ei chymeradwyo. Bydd y Rheolwr Ynni yn gyfrifol am reoli'r prosiectau hyn tan y byddant wedi'u cwblhau. Bydd y Rheolwr Ynni yn ymgysylltu â nifer o wahanol asiantaethau allanol gan gynnwys Partneriaethau Lleol a Refit Cymru, sydd wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor a chymorth am ddim i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu datblygu prosiectau.
Bydd y Rheolwr Ynni, gyda chymorth aelodau priodol y Grŵp Ynni ac asiantaethau allanol, yn paratoi achosion busnes er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau arbed ynni a phrosiectau creu ynni.
Unwaith y bydd prosiectau wedi'u cwblhau, bydd y defnydd o ynni gan adeiladau unigol yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod yr arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni ac i ysgogi syniadau ar gyfer prosiectau i'r dyfodol.

# Rheoleiddio

Bydd y rheolwr ynni yn monitro'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Deddf Newid Hinsawdd 2008* a sefydlodd darged newid hinsawdd cyfreithiol rwymol cyntaf y byd. Ei fwriad yw gostyngiad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (o gymharu â gwaelodlin 1990) erbyn 2050.
- *Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad Lleihau Carbon (YLlC)* sydd â'r nod o sicrhau gostyngiad o 1.1 miliwn tunnell yn yr allyriadau carbon deuocsid gan sefydliadau sector cyhoeddus a masnachol mawr erbyn 2020. Mae Cynllun Effeithlonrwydd Ynni YLlC yn gynllun allyriadau ar gyfer y DU gyfan a ddechreuodd yn Ebrill 2010. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn berthnasol i sefydliadau sy'n defnyddio gwerth o leiaf 6,000 awr Megawat o drydan y flwyddyn. Mae Ynys Môn o dan y trothwy hwn ar hyn o bryd, fodd bynnag, gellid gostwng y trothwy yn y dyfodol.
- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau datblygiadau cynaliadwy.
- *Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru 2016 – 2026 gan Lywodraeth Cymru, sy'n gosod nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer arbedion ynni dros y deng mlynedd nesaf, sy'n cynnwys gweithredoedd i ysgogi awdurdodau lleol i gael ymrwymiad clir tuag at effeithlonrwydd ynni*.
- *Tystysgrifau Perfformiad Ynni a Thystysgrifau Ynni i'w Harddangos*; fel rhan o gydymffurfiaeth y DU â Chyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPDB) yr UE, mae bellach angen arddangos Tystysgrifau Perfformiad Ynni a Thystysgrifau Ynni i'w Harddangos ym mhob adeilad cyhoeddus sydd dros 250m2 . Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) a Thystysgrifau Ynni i'w Harddangos (DEC) yn orfodol ers Hydref 2008. Mae EPCau yn nodi lefel neu raddfa perfformiad ynni sydd wedi'i gyfrifo ar gyfer adeilad newydd, sy'n golygu perfformiad ynni o safbwynt ffabrig yr adeilad, offer a goleuadau. Mae angen EPC wrth adeiladu, gwerthu neu rentu adeilad. Mae DECau yn nodi'r raddfa ar gyfer yr ynni gweithredol a fesurwyd. Fe'u cynhyrchir yn flynyddol gan ddefnyddio'r ffigyrau ar gyfer yr ynni a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd ac fe'u cyflwynir gyda chanlyniadau blynyddoedd blaenorol. Bydd DECau yn cael eu harddangos mewn adeiladau cyhoeddus yn bennaf ond gellir eu harddangos mewn adeiladau preifat yn wirfoddol hefyd.

# Cyllid

Er mwyn lleihau costau ynni, mae angen buddsoddiad cychwynnol er mwyn gosod teclynnau ac offer sy'n effeithlon o ran defnydd ynni, pethau fel boeleri biomas a phaneli solar ac ati. Mae cyfnod talu'n ôl y prosiectau hyn yn amrywio yn unol â'r offer sy'n cael ei osod a'r posibilrwydd o grantiau/benthyciadau sydd ar gael. Mae cyllid posib yn cynnwys y Tariff Cyflenwi Trydan a'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy.

**Tariff Cyflenwi Trydan.** Petai'r Awdurdod yn gosod technoleg sy'n creu trydan drwy ddefnyddio ffynhonnell adnewyddadwy neu garbon isel megis solar PV neu dyrbin gwynt, gallai cynllun Cyflenwi Trydan y Llywodraeth greu incwm gan y cyflenwr ynni. Yn ogystal ag arbed ar gostau trydan, mae taliadau ar gael drwy'r cynllun cyflenwi trydan, ar gyfer y trydan sy'n cael ei greu ac ar gyfer unrhyw drydan dros ben a anfonir i'r grid. Fodd bynnag, mae'r taliadau sydd ar gael drwy'r cynllun hwn wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

***Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy*.** Mae'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy annomestig yn helpu busnesau, sefydliadau sector cyhoeddus a sefydliadau dielw i allu talu am osod technolegau gwres adnewyddadwy. Gwneir taliadau dros 20 mlynedd ac maent yn seiliedig ar y gwres a ddaw allan o'r system sydd wedi'i gosod. Gwneir taliadau unwaith y mae'r cynllun wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo. Mae cyllideb gyfyngedig ar gyfer y grant hwn ac ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd y grant ar gael cyn i'r gwaith gael ei wneud. Felly, mae risg yn bodoli oherwydd na ellir cymryd yn ganiataol y bydd y grant yn cael ei dalu.

***SALIX*** Rhaglen Gyllido Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amrediad o gynigion cyllid 0% ar gyfer ariannu prosiectau Effeithlonrwydd Ynni. Gall y Cyngor fod yn gymwys am fenthyciad traddodiadol neu am Grant Buddsoddi i Arbed gan Salix. Yr un broses ymgeisio sydd i'r ddau gynllun, fodd bynnag i fod yn gymwys, rhaid i'r prosiectau gwrdd â dau faen prawf ar gyfer ad-dalu, sef cynllun syml ar gyfer talu'n ôl dros gyfnod o 8 mlynedd, ynghyd â maen prawf effeithlonrwydd, sef bod hyd at £200 y dunnell o CO2 yn cael ei arbed yn ystod oes y mesurau a osodir

Os yn llwyddiannus, mae darpariaeth i ad-dalu'r benthyciadau dros gyfnod o ddeng mlynedd fel y gall y Cyngor elwa'n syth o'r gostyngiad mewn Ynni.

***Cwmnïau Cyllid Allanol***

Mae nifer o gwmnïau wedi cysylltu â'r Cyngor yn cynnig cynnal prosiectau arbed ynni am ddim. Mae'r cwmnïau perthnasol yn gwneud hynny ar y sail eu bod yn elwa o daliadau Tariff Cyflenwi Trydan neu Gymhelliad Gwres Adnewyddadwy dros gyfnod penodol o amser (ugain mlynedd fel arfer). Mae'r cynlluniau sydd wedi eu cynnig hyd yma wedi bod yn rhai ag ychydig iawn o werth, nad ydynt yn cynnig unrhyw fudd ariannol hirdymor i'r awdurdod. Yn sicr, byddai'n well i'r Awdurdod wneud y gwaith ei hun er mwyn sicrhau'r arbediad mwyaf posibl. Fodd bynnag, os

nad yw'r awdurdod yn gallu dod o hyd i'r cyllid angenrheidiol un ai drwy ddefnyddio ei Gyfalaf ei hun neu drwy Salix,  dylid ystyried y cynigion hyn gan y byddant yn lleihau allyriadau carbon yr awdurdod os nad yn creu arbedion economaidd.

***Mae Refit Cymru*** Mae Re:fit yn Fframwaith Contract Perfformiad Ynni DU eang a gafaelwyd trwy OJEU. Mae'n cynnig arbedion ynni sy'n cael eu gwarantu gan y darparwyr gwasanaeth ac mae'n golygu y gall cynghorau redeg prosiectau Effeithlonrwydd Ynni mwy a'u gweithredu'n gyflymach.  Mae'n cyflawni hyn drwy ymgymryd â phrosiectau ar rannau mawr o'r stad ar draws nifer o gyfnodau prosiect. Mae pob cam o'r prosiect werth oddeutu £0.5m-£1.5m. Fe'i cefnogir yng Nghymru gan yr Uned Gweithredu Rhaglen sy'n cael ei chyllido 90% drwy'r gronfa Ewropeaidd, ELENA.  Mae hyn yn gostwng yn sylweddol y costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â phrosiect Re:fit o gymharu ag unman arall yn y DU. Gellir cyllido prosiectau Re:fit o amryw o ffynonellau gan gynnwys hunangyllido, Salix, Buddsoddi i Arbed ac mae opsiwn i ofyn i'r darparwyr gwasanaeth gyllido cynlluniau petai raid.

***Cyllid Cyfalaf;*** yn ddelfrydol, fe ddylai'r awdurdod ystyried darparu cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau arbed ynni. Bydd y rheolwr ynni yn cyflwyno ceisiadau'n flynyddol am brosiectau arbed ynni.

***Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio a Gwaith Cynnal a Chadw Ymatebol***
Mae cyllidebau ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio a gwaith ymatebol wedi'u cyfyngu i faterion iechyd a diogelwch, cydymffurfiaeth gyfreithiol a pharhad busnes. O ganlyniad, nid oes arian ar gael ar gyfer prosiectau sy'n targedu arbed ynni. Ble bynnag bo hynny'n bosibl, bydd yr holl brosiectau cynnal a chadw yn ystyried y ffordd orau o leihau'r defnydd o ynni fel rhan o'r prosiect, gan gynnwys y posibilrwydd o ariannu'r prosiect yn rhannol er mwyn gwneud gwaith ychwanegol a fyddai'n cynyddu'r buddion o ran defnyddio llai o ynni. Er enghraifft, gellid gosod goleuadau LED fel rhan o raglen ailwefru, gyda chostau ychwanegol y goleuadau'n cael eu hariannu drwy gynllun benthyciadau Salix.

# Mesur a Monitro
Mae monitro'r defnydd o ynni yn ofalus mewn adeiladau unigol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn targedu rhaglen o waith yn yr adeiladau a fedr sicrhau'r arbedion mwyaf ac i wirio biliau a darganfod ym mha gyfnodau y gwneir y defnydd mwyaf o ynni. Mae angen newid meddalwedd gyfredol y Cyngor yn hyn o beth fel y gellir targedu'n well a chynhyrchu data gwell yn ogystal â gwirio biliau.

# Hyfforddiant a datblygiad
Mae'r newidiadau cyflym yn y technolegau ynni isel sydd ar gael yn golygu bod angen hyfforddiant cyson ar y Rheolwr Ynni a'r swyddog Arbed Ynni. Bydd hyfforddiant priodol yn cael ei drefnu ar gyfer y ddau swyddog. Yn ychwanegol at hynny, bydd yr eiriolwyr ynni angen adolygu'r anghenion hyfforddiant ac fe drefnir hyfforddiant priodol ble bo hynny'n bosibl.

| Strategaeth Ynni | | | Rheolwr Prosiect | Rhys Griffith | 01248 752161 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf. Gweithred** | **Amcan a Gweithred** | **Cyfrifoldeb am y Weithred** | **Cynnydd / Sylwadau** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** |
| 1 | Sicrhau bod pawb yn deall eu rôl | | | | |
| 1.01 | Penodi eiriolwyr ynni allweddol | Pennaeth Gwasanaeth | | Gorffennaf 17 | Gorffennaf 17 |
| 1.02 | Cyfarfod cychwynnol y bwrdd arbed ynni | Rheolwr Ynni | | Gorffennaf 17 | Gorffennaf 17 |
| | | | | | |
| 2 | Adrodd yn ôl yn rheolaidd ar gynnydd a defnydd o ynni | | | | |
| 2.01 | Adrodd i'r grŵp Tir ac Asedau | Rheolwr Ynni | | Misol | Yn parhau |
| 2.02 | Adrodd yn ôl i'r UDA | Rheolwr Ynni | | Bob Blwyddyn | Yn parhau |
| | | | | | |
| 3 | Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau | | | | |
| 3.01 | Adolygu'r datblygiadau diweddaraf | Rheolwr Ynni | | Gorffennaf 17 | Yn parhau |
| | | | | | |
| 4 | Datblygu prosiectau i leihau'r defnydd o ynni | | | | |
| 4.01 | Mewn ymgynghoriad â Refit Cymru a Phartneriaethau Lleol, datblygu rhaglen flynyddol o brosiectau posib. | Rheolwr Ynni | | Gorffennaf 17 | Yn parhau |
| 4.02 | Grŵp Tir ac Asedau i gytuno ar raglen waith arfaethedig | Rheolwr Ynni | | Gorffennaf 17 | Yn parhau |
| 4.03 | Gwaith o reoli'r prosiectau | Rheolwr Ynni | | Yn parhau | |
| 5 | Ystyried materion ynni wrth brynu nwyddau a gwasanaethau a chyflenwadau ynni. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.01 | Adolygu'r polisi caffael | Rheolwr Ynni / Caffael | | Rhag-17 | |
| 5.02 | Adolygu'r polisi prynu ynni | Rheolwr Ynni / Caffael | | Rhag-17 | |
| 6 | Cadw golwg ar ddefnydd o ynni drwy fesur a monitro | | | | |
| 6.01 | Adolygu'r feddalwedd bresennol ac ystyried ei newid | Rheolwr Ynni / Caffael | | Ion-17 | Gorffennaf 17 |
| | | | | | |
| 7 | Sicrhau Hyfforddiant a Datblygiad rheolaidd ar faterion ynni a thechnoleg | | | | |
| 7.01 | Adolygu anghenion hyfforddiant y bwrdd ynni | Rheolwr Ynni | | Meh-17 | Yn parhau |
| | | | | | |
| 8 | Sicrhau bod adeiladau newydd yn ystyried y nod hirdymor o fod yn garbon niwtral | | | | |
| 8.01 | Bwrdd Ynni i ystyried | Rheolwr Ynni | | Mai-17 | Yn parhau |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 9 | Sicrhau bod y cynllun rheoli asedau yn ymgorffori'r strategaeth ynni. | | | | |
| 9.01 | Trafodaeth gychwynnol gyda'r Rheolwr Asedau. | Rheolwr Ynni | | Mai-17 | Yn parhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 10 | Ystyried yr angen i adolygu'r Polisi Ynni | | | | |
| 10.01 | Ystyried yr angen i adolygu'r polisi ynni | Bwrdd Arbed Ynni | | Mai-17 | Yn parhau |

ATODIAD A
POLISI ARBED YNNI A DŴR MEWN ADEILADAU
CYNGOR SIR YNYS MÔN
DATGANIAD O YMRWYMIAD

**Datganiadau Polisi**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn:

1. Yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth ar gyfer rheolaeth effeithiol o ynni a dŵr.

2. Addysgu a chodi ymwybyddiaeth am faterion ynni a dŵr ymysg staff technegol a datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPD).

3. Rhoi blaenoriaeth i leihau galw am ynni, yn hytrach na gosod neu uwchraddio systemau gwresogi, lle bo’n ymarferol gwneud hynny.

4. Ystyried adnoddau ynni a dŵr wrth gaffael neu gynnal offer neu beiriannau (yn cynnwys offer swyddfa) a hefyd wrth gynllunio prosiectau newydd.

5. Osgoi nwy propen ac olew tanwydd gwresogi fel ffynonellau ynni mewn adeiladu.

6. Diffinio rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ynni a dŵr fel y gellir eu rheoli’n effeithlon a sefydlu gweithdrefnau adrodd clir.

7. Sefydlu a gweithredu gweithdrefnau ar gyfer gweithrediad effeithlon offer a pheiriannau.

8. Sefydlu pwy ar lefel gwasanaeth sy’n gyfrifol am gostau ynni a dŵr.

9. Codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr o arferion da mewn perthynas ag adnoddau ynni a dŵr.

10. Ymchwilio i, a gweithredu ffyrdd o brynu ynni am y pris mwyaf cost effeithiol.

11. Ymchwilio i ffynonellau ynni adnewyddadwy allanol ac, os yn ymarferol, prynu canran a gynhyrchir gan yr adnoddau hyn.

12. Lleihau allyriadau carbon deuocsid i’r targedau y cytunwyd arnynt.

13. Buddsoddi mewn technolegau newydd, yn cynnwys technolegau ynni, lle mae hyn yn bodloni’r meini prawf buddsoddi.

14. Datblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni a dŵr a buddsoddi mewn technoleg, prosesau ac offer arbed ynni a dŵr.

15. Adrodd yn ôl yn flynyddol ar berfformiad ynni a dŵr.

**ATODIAD B**

Gwariant Ynys Môn ar ynni a dŵr 2015/16

| | |
|---|---|
| Trydan | 1,122,774 |
| Nwy – Naturiol | 439,047 |
| Nwy – Propan, Biwtan, Calor | 71,922 |
| Tanwydd / Olew | 92,962 |
| Pelenni | 6,661 |
| Gwasanaethau Dŵr | 269,097 |
| Dŵr Cymru - Carthffosiaeth | 43,178 |
| Dulliau Eraill o Gael Gwared ar Garthffosiaeth | 64,429 |
| **Cyfanswm** | **£2,110,070** |

## Atodiad C: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Nodau

**Cymru Lewyrchus**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas

**Cymru Gydnerth**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru Iachach**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynol**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.


**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Atodiad D

| Defnydd Ynni | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nwy Naturiol (kWh) | **15,380,886** | **11,982,796** | **13,593,642** | **14,001,274** | **14,043,419** |
| Tunelli o Co2 | 2,845 | 2,217 | 2,515 | 2,590 | 2,598 |
| LPG (kWh) | **3,841,897** | **3,235,976** | **3,639,758** | **2,902,404** | **3,151,855** |
| Tunelli o Co2 | 822 | 692 | 779 | 621 | 674 |
| Olew Tanwydd Gwresogi (kWh) | **3,160,935** | **2,358,062** | **2,609,395** | **1,711,714** | **1,833,763** |
| Tunelli o Co2 | 869 | 648 | 718 | 471 | 504 |
| Trydan (kWh) | **12,784,450** | **13,152,475** | **12,771,331** | **12,650,316** | **12,264,982** |
| Tunelli o Co2 | 6,968 | 7,168 | 6,960 | 6,894 | 6,684 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM kWh** | **35,168,168** | **30,729,309** | **32,614,126** | **31,265,709** | **31,294,019** |
| Cyfanswm CO2 (Tunelli) | 11,504 | 10,726 | 10,972 | 10,576 | 10,461 |
| Dyddiau Graddau (nifer yr oriau o dan 15.5) | 2,102 | 1,625 | 2,199 | 1,765 | 1717 |



This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **12 Mehefin, 2017** |
| **Pwnc:** | **Ffordd Gyswllt Llangefni – Rhan 3. Adroddiad ar Orchymyn Prynu Gorfodol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Percy**<br>**01248 752530**<br>**hmpht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cyng. Nicola Roberts**<br>**Cyng. Bob Parry**<br>**Cyng. Dylan Rees** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) o dan adran 239 Deddf Priffyrdd 1980 i gaffael tir sydd ei angen ar gyfer Rhan 3 o Gynllun Ffordd Gyswllt Llangefni a ddangosir ar y cynllun sydd wedi ei atodi.

Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau cadarnhau'r GPG.

Nid yw'r rhwydwaith priffyrdd yng nghanol tref Llangefni yn addas ar gyfer llif traffig modern. Rhaid i bob traffig o'r A55 deithio drwy ganol y dref ac o dan bont isel i gael mynediad i'r B5109, B5111 neu'r B5110.

Erbyn hyn mae Stad Ddiwydiannol Llangefni yn Barc Busnes ac mae wedi cael statws Parth Menter (un o ddim ond 8 safle o'r fath yng Nghymru). Mae'r isadeiledd priffyrdd annigonol a chysylltiadau gwael i'r A55 yn cael effaith andwyol ar y gallu i ddatblygu ac ehangu'r Parth Menter.

Mae posibilrwydd o hyd at 9,000 o swyddi yn Ynys Môn yn sgil Wylfa Newydd, gyda 850 o swyddi parhaol. Mae'n rhaid hyfforddi'r boblogaeth leol, a phobl ifanc yn arbennig, fel y gallant fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth ac i leihau mudo o Ynys Môn. Mae gan Goleg Llandrillo Menai gynllun datblygu 3-Cham i fod yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Hyfforddiant Peirianneg yn Llangefni a fydd yn hyfforddi pobl i weithio yn y sector ynni a byddai modd cynnal yr holl weithgareddau cynefino yn y coleg. Nid yw'r isadeiledd priffyrdd rhwng y coleg a'r A55 yn ddigonol ac ni all y coleg ddatblygu heb ffordd gyswllt newydd.

Yn 2013, cynhaliwyd adolygiad o’r materion trafnidiaeth a oedd yn cyfyngu ar y Parth Menter ('Astudiaeth Trafnidiaeth Parth Menter Ynys Môn'). Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau arfarniad lefel uchel o’r isadeiledd trafnidiaeth cyfredol yn Ynys Môn mewn perthynas â chyfres o gyfleoedd datblygu arfaethedig sy'n deillio o Barth Menter Môn (PMM). Un o argymhellion yr astudiaeth oedd bod angen ffordd gyswllt i gysylltu Parth Menter Llangefni i'r A55. Bydd hyn yn gwella mynediad i safleoedd Parth Menter hollbwysig a chysylltiadau â ffordd ddeuol yr A55 (Ffordd Ewro E22), a allai yn ei dro arwain at ddatblygu campws Coleg Menai (Grŵp Llandrillo-Menai) ymhellach. Bydd y cynllun hefyd yn lleddfu tagfeydd yng nghanol tref Llangefni, hwyluso datblygiadau manwerthu a chyflogaeth yn yr ardaloedd hyn a gwella'r amodau ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy. Byddai hefyd yn cefnogi datblygiad Llangefni mewn cyd-destun ehangach trwy leihau’r effaith ar drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â thwf lleol. Byddai hefyd yn sicrhau y byddai modd diogelu datblygiad safle Grŵp Llandrillo-Menai i’r dyfodol yn hytrach na bod y cyfyngiadau priffyrdd cyfedol yn amharu ar y gallu i wneud hynny. Mae hon yn ystyriaeth bwysig iawn.

Byddai’r twf a ragwelir yn y lefelau traffig yn golygu y byddai’r isadeiledd priffyrdd cyfredol wedi cyrraedd ei gapasiti llawn mewn rhai rhannau o'r rhwydwaith yn Llangefni. Heb ffordd gyswllt byddai twf economaidd yn gyfyngedig oherwydd y rhwydwaith priffyrdd. Byddai Ffordd Gyswllt yn caniatáu i Grŵp Llandrillo-Menai ehangu eu cyfleusterau addysg yn unol â'r prif gynllun a luniwyd ar gyfer eu safle yn Llangefni. Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi bod yn trafod gyda Pŵer Niwclear Horizon ers tro ynglŷn â chydleoli eu hyfforddiant arbenigol o fewn yr Academi Beirianneg newydd, a disgwylir i’r datblygiad hwn yn unig fod yn fwy na £10m.

Mae prosiect Ffordd Gyswllt Llangefni yn cynnwys adeiladu 2.5km o ffordd gyswllt newydd i'r de-ddwyrain o Langefni ac mae’r cynllun wedi ei rannu’n bedair rhan. Mae'r ffordd gyswllt yn cysylltu cyffordd yr A5114 (PM6) yn llyfn trwy Barc Busnes Bryn Cefni (PM5) i safle Grŵp Llandrillo-Menai. Mae'n darparu gwell mynediad i Gampws Grŵp Llandrillo-Menai ar gyfer Addysg Bellach a safleoedd Parth Menter Môn yn Llangefni. Byddai'r cynllun arfaethedig hefyd yn agor i fyny lleiniau sylweddol o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth yn y dyfodol.

Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Rhannau 1,2 a 4 yn ogystal â chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Rhan 3 ar 18/12/2015. Cafwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer Rhan 3 ar 03/02/2017.

Agorwyd rhannau 1 a 2 Ffordd Gyswllt Llangefni ar 13/03/2107. Rhaglennwyd y bydd gwaith ar Ran 4 yn dechrau ym mis Mehefin 2017 i’w gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017. Rhaglennwyd y bydd gwaith paratoadol yn dechrau ar Ran 3 ym mis Hydref 2017 i’w gwblhau cyn dechrau ar y prif waith adeiladu ar gyfer Rhan 3 ym mis Ebrill 2018. Rhaglennwyd y bydd y cynllun cyfan wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2019.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae'r tir ar werth ac mae'r Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda pherchennog y tir ers dros 2 flynedd. Cytunwyd y telerau ond nid ydym wedi gallu cwblhau'r pryniant oherwydd anghydfod rhwng cyfarwyddwyr y cwmni. Er mwyn symud ymlaen mae angen awdurdod ffurfiol ar gyfer GPG ac ystyrir y gallai bygwth GPG fod yn ddigon i gael y tirfeddianwyr i gytuno. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith adeiladu Ffordd Gyswllt Llangefni ar 15/05/2015. Er mwyn symud ymlaen gyda Gorchymyn Prynu Gorfodol ystyrir bod angen cyflwyno adroddiad manylach a diweddarach i'w gymeradwyo |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae'r gwaith o ddatblygu, dylunio ac adeiladu Rhannau 1,2 a 4 o Ffordd Gyswllt Llangefni wedi ei ariannu i raddau helaeth hyd yma gan Lywodraeth Cymru trwy ei Chronfa Cludiant Lleol (CCLL).<br><br>Mae'r Awdurdod wedi darparu arian cyfatebol ar gyfer tua 10% o'r gost a chafwyd cyfraniadau arian cyfatebol pellach gan Goleg Llandrillo-Menai a'r Gronfa Digomisiynu Niwclear.<br>Cafwyd cyllid i brynu tir ar gyfer Rhan 3 eisoes gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae dyraniad ar gyfer gwaith adeiladu paratoadol ar Ran 3 yn 2017/18 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymeradwyo cyfraniad arian cyfatebol.<br><br>Cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru am arian o'r Gronfa Cludiant Lleol i gwblhau'r gwaith adeiladau yn 2018/19 ac mae Llwywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cynllun hyd yn hyn ac yn gefnogol o Ran 3.<br><br>Os na cheir cyllid gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Cludiant Lleol ar gyfer y gwaith sy'n weddill ar Ran 3, yna ni chwblheir y rhan honno o Ffordd Gyswllt Llangefni a byddai gan hynny oblygiadau sylweddol ar ddatblygu safle Coleg Menai-Pencraig fel canolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddi i baratoi am Wylfa Newydd .<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r rhan fwyaf o'r gwaith priffyrdd hyd yma trwy grant o'r Gronfa Cludiant Lleol bob blwyddyn a byddai datyrys y materion tir yn gynnar yn rhoi'r Awdurdod mewn gwell sefyllfa i gyflymu'r rhaglen adeiladu ac i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw danwariant cenedlaethol yn y gronfa cludiant Lleol. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Diwygiwyd yr adroddiadau i gynnwys y sylwadau. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae’r Adran Briffyrdd wedi cydgysylltu’n glos ag Adran Gyllid y Cyngor i baratoi’r ceisiadau am arian o’r Gronfa Cludiant Lleol a gwerthfawrogir yn fawr yr arweiniad a gafwyd. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau wedi ei dderbyn. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| 1. Gosodiad y Cynllun<br>2. Dyraniadau Cyllid Grant |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |


Ffordd Gyswllt Llangefni – Cyllido

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Cludiant Lleol – Llywodraeth Cymru | 449,500 | 390,000 | 1,884,000 | 2,077,000 | |
| Parth Menter Llywodraeth Cymru | 30,000 | 1,500,000 | 1,917,000 | | |
| Coleg Menai | | 10,000 | 300,000 | | |
| NDA | | 15,000 | | | |
| CSYM | 25,000 | | 273,000 | 342,000 | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **504,500** | **1,915,000** | **4,374,000** | **2,419,000** | **9,212,500** |

Mae tir Coleg Menai yn werth o gwmpas £200,000

Ni wariwyd £600,000 o gyllid 2015/16 yn y flwyddyn honno ond mae wedi ei gronni gan LC ar gyfer prynu tir.  Parhawyd i gynnwys y swm hwn yng nghyfanswm 2015/16.

# Llangefni Link Road Scheme Overview




CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad/Title of Report) Diweddariad ar y Cynllun i ail-gartrefu FFoaduriaid o Syria /Update on the Syrian Refugee Re-settlement Scheme***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 12, 13<br>Paragraph(s) 12, 13 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae gan y cyhoedd ddiddordeb dilys mewn datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r modd mae'r Cyngor yn ail-gartrefu a gofalu am Ffoaduriaid o Syria.<br><br>The public has a legitimate interest in disclosure of information relating to the way that the Council re-settles and cares for Refugees from Syria. | Budd y cyhoedd, wrth beidio datgelu, yw sicrhau fod y Cyngor yn amddiffyn unigolion rhag ymyrraeth yn eu bywydau personol yn unol â deddfwriaeth y D.U. ac Ewrop. Mae budd y cyhoedd, o ran y Cyngor yn amddiffyn y preifatrwydd yma, yn gryf.<br><br>The public interest in not disclosing lies in ensuring that the Council protects individuals from intrusion in their private lives in accordance with UK and European law. There is a strong public interest in the Council protecting this privacy. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. **Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **12 Mehefin 2017 a 6 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Newid i'r Cyfansoddiad** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**01248 752586**<br>**lynnball@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad**

1. Diwygio adran 2.7.2 y Cyfansoddiad i ddarllen fel a ganlyn: -

   "Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys yr Arweinydd ynghyd ag o leiaf 2, ond dim mwy na 9 Cynghorydd arall, gan gynnwys Dirprwy Arweinydd; a bydd y cyfan yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd"

2. Cytuno bod nifer y swyddi ar y Pwyllgor Gwaith sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch yn codi, ar unwaith o 7 i 8.

3. Cytuno mewn egwyddor y dylai'r Cyngor gyflwyno cais i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) am ganiatâd i godi nifer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch, o'r cap presennol o 15, hyd at uchafswm o 16.

4. Ar yr amod y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cais terfynol ac ar yr amod y ceir caniatâd gan PACGA, rhoi awdurdod i benodi Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith (cyfanswm o 9) a fydd yn gymwys i dderbyn cyflog uwch.

5. Cydnabod y bydd penodi dau Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith yn gost niwtral ar y sail y byddant yn cael eu cyllido o arbedion o gyflogau'r Dirprwy Arweinydd ac un Cadeirydd a fyddant, ill dau, yn parhau i wrthod y cyflogau uwch sy'n daladwy ar gyfer eu swyddi.

**Rhesymau**

| |
|---|
| - I adlewyrchu'r darpariaethau statudol yn a11(3) a (8) Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br>- I ddarparu'r hyblygrwydd mwyaf posibl a ganiateir, i ddosbarthu cyfrifoldebau yn y modd mwyaf effeithiol ac i alluogi'r Cyngor i ganolbwyntio'n well ar brosiect Wylfa Newydd. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Cadw'r sefyllfa fel mae ar hyn o bryd (Arweinydd a 6 Chynghorydd arall, gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd), ond nid yw hyn yn darparu ar gyfer unrhyw gapasiti ychwanegol y gall bod ei angen i ganolbwyntio ar flaenoriaeth benodol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r rhain yn faterion sydd wedi eu neilltuo i'r Cyngor ond mae'n rhaid, yn gyntaf, roi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith fynegi barn / gwneud argymhelliad i'r Cyngor, pe bai'n dymuno gwneud hynny mewn perthynas â'r argymhelliad cyntaf; sy'n ymwneud â newid cyfansoddiadol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw hyn yn berthnasol gan fod y penderfyniad terfynol yn disgyn ar y Cyngor llawn (yn amodol yn rhannol ar PACGA yn defnyddio ei ddisgresiwn) ac mae'r argymhelliad yn gyson ag a11 (3) a (8) Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Tra bod y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd Pwyllgor yn gwrthod uwch gyflog, mae o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor i benodi dau aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith (gyda chaniatâd PACGA ar gyfer un ohonynt). |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn cefnogi'r cynnig |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Yn cefnogi'r cynnig |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | **(TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol ar hyn o bryd |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol 2000<br>Adroddiad gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2017 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **12fed o Fehefin 2017** |
| **Pwnc:** | **Datblygu Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Gwyneth Môn Hughes**<br>**2908**<br>**gwynethhughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

| **A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau** |
|---|

Amlinellir yn y papur hwn y camau gweithredu a'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu'r dyhead o ddatblygu Penaethiaid er mwyn sicrhau ein bod yn arddel ar arweinwyr ysgol o'r ansawdd uchaf i'r dyfodol, a rhai y gallwn alw arnynt i weithredu fel:

a) pennaeth strategol (sef y rhai sy'n bennaeth dros fwy nag un safle ysgol),
b) penaethiaid mewn gofal (sydd wedi ei benodi i'r rôl o'r newydd a dros dro), neu
c) penaethiaid cynorthwyol neu reolwr safle (sef unigolion sy'n gyfrifol am y safle a'r dysgwyr tra bo'r pennaeth ar safle arall).

Anelir at ddatblygu oddeutu dwsin o arweinyddion strategol i Ynys Môn ar gyfer y dyfodol, ond mewn cyfnod trawsnewidiol mae'n fwriad hefyd i ddatblygu sgiliau carfan o benaethiaid mewn gofal, penaethiaid sydd wedi'i dyrchafu'n ddiweddar i'r swydd a hefyd datblygu o'r newydd rheolwyr safle .

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo'r canlynol:

**1. Datblygu arweinwyr ysgolion y dyfodol.**

Er mwyn sicrhau arweinwyr addas sy'n meddu ar sgiliau a phriodweddau angenrheidiol mae angen cynllun datblygu sy'n cynnwys tair elfen:

a) Codi safonau cyrhaeddiad a monitro, tracio ac adrodd ar berfformiad yn effeithiol.

b) Agweddau arweinyddiaeth yn y maes cwricwlaidd, dysgu ac addysgu, datblygu arweinyddiaeth ddosranedig ac arweinyddiaeth llywodraethwyr ac atebolrwydd.
c) Rheolaeth effeithiol ac effeithlon o staff, y gymuned rhan ddeiliaid ehangach ac adnoddau sy'n cynnwys cyllid, perfformiad a rheolaeth staff, iechyd a diogelwch, diogelu a llesiant.

Mae'r Pecyn Datblygu Arweinyddiaeth Ysgolion arfaethedig (Drafft) wedi ei rhannu [ ar hyn o bryd ] i 12 fodiwl angenrheidiol ac mae modd blaenoriaethu'r rhaglenni i adlewyrchu anghenion yr unigolyn.

Yn dilyn trafodaeth bellach gyda'r Undebau a'r Penaethiaid bwriedir cynnig y rhain nid yn unig i arweinwyr strategol, darpar arweinwyr, rheolwr safle neu arweinwyr sy'n newydd mewn swydd ond hefyd i unrhyw Bennaeth sy'n awyddus i ehangu gwybodaeth a sgiliau mewn agweddau penodol.

**B – Pa opsiynau eraill y bu i chi eu hystyried a pham y bu i chi eu gwrthod a dewis/neu ddewis ar gyfer yr opsiwn hwn?**

Nid yw gwneud dim ddim yn opsiwn oherwydd:-

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i hyfforddi, cefnogi a datblygu arweinwyr fel eu bod yn meddu'r a'r holl sgiliau angenrheidiol i yrru Addysg ymlaen yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae llwyth gwaith Pennaeth sydd hefyd gyda chyfrifoldeb sylweddol am ddosbarth wedi mynd yn afresymol ac felly yn gorfodi'r Awdurdod newid strwythur Gwasanaeth Ysgolion.

Mae'n fwyfwy anodd i lenwi swydd Pennaeth ac mae nifer o'm Penaethiaid mewn oed ymddeol.

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar egwyddorion y cynllun rhaglen Moderneiddio sydd eisoes wedi cael ei fabwysiadu.

| C – Pam y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Newid sylweddol yn strwythur y Gwasanaeth Ysgolion a'r rhaglen datblygu arweinwyr yn lleol. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r cynnwys yn cyd-fynd gyda'r strategaeth ar gyfer moderneiddio ysgolion |

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwyd gan y Cyngor?**

Mae rhagamcan costau yn cynnwys costau am gynhyrchu a pharatoi deunyddiau, cyflwyno a hyrwyddo'r modiwlau mewn dulliau fwyaf gost effeithiol. Maent hefyd yn cynnwys gwneud defnydd o Benaethiaid profiadol i fentora hyd at 5 diwrnod ac i hyrwyddo gweithgareddau Ysgol i Ysgol.

**Gweithredu'r costau**

| Hyfforddiant | Costau | Ffynhonnell gyllidol |
|---|---|---|
| 6 Modiwl gan GwE | £11,000 | Grant ysgolion Bach a Gwledig |
| 6 Modiwl gan yr Awdurdod | £4.000 | Grant Ysgolion Bach a Gwledig |
| Pennaeth newydd /Pennaeth mewn gofal/ Rheolwr safle i dderbyn isafswm 5 diwrnod gan Fentor<br>[ Pennaeth Strategol] | Cost o £300 y dydd am gymorth Mentor am 5 diwrnod x 12 = £18,00<br>Ond wedi gwarchod £8,000 yn ychwanegol i ateb gofyn unrhyw argyfwng. | Grant Ysgolion Bach a Gwledig/cyfraniadau o gyllidebau ysgolion |
| Cost llanw i fynychu hyfforddiant Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol | Arweinydd Ysgol fach a Gwledig i dderbyn hyd at £1,250 i dalu am lanw am 5 diwrnod i fynychu hyfforddiant Arweinydd y Dyfodol £15,000 | Grant ysgol Bach a Gwledig |

Adnabyddir cyfle euraidd arloesol i gefnogi'r ymgyrch Grant Arloesedd Ysgolion Bach a Gwledig (eto i'w gymeradwyo gan y Llywodraeth) gan fod y pecyn 'Datblygu Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol' yn cyd-fynd a'r meini prawf a adnabyddir ar gyfer y grant.

Rhagwelir bydd cost gychwynnol o ddeutu £56,000 am y flwyddyn gyntaf .

| DD – Â phwy y bu i chi ymgynghori? | | Beth a ddywedwyd ganddynt? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS/SLT)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol/Monitro** (gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGaCh)** | |
| **7** | **Crafffu/Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Deilliant** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Dim |

| FF – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Pecyn Cefnogi Arweinyddiaeth Drafft<br>Awdit Anghenion unigolion<br>Diffiniad o rolau arweinyddion<br>Cais Cyllid Grant Arloesedd ysgolion Bach a Gwledig, Llywodraeth Cymru 2017-18 |

This page is intentionally left blank